



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Gweddnewid ein system gyfiawnder: Strategaeth ddigidol â chymorth, euogfarnau ar-lein awtomatig, a chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth

Chwefror 2017



Gweddnewid ein system gyfiawnder: Strategaeth ddigidol â chymorth, euogfarnau ar-lein awtomatig, a chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2017



© Hawlfraint y Goron 2017

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi rhoi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn i courtsreformpolicy@justice.gsi.gov.uk

ISBN yr argraffiad 9781474139717

ISBN ar y we 9781474139724

ID 23121611 01/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cysylltu	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r atebion	5
Y casgliad a'r camau nesaf	29
Yr egwyddorion ymgynghori	32

Gweddnewid ein system gyfiawnder: Strategaeth ddigidol â chymorth, euogfarnau ar-lein awtomatig, a chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd Ymateb y Llywodraeth

Cyflwyniad a manylion cysylltu

Dogfen yw hon sy'n dilyn yr ymgynghoriad ar y papur, Gweddnewid ein system gyfiawnder: crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad.

Dyma gynnwys y ddogfen:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- yr ymateb manwl i'r cwestiynau penodol yn yr adroddiad
- y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Charlotte Bettley** yn y cyfeiriad isod:

**3.42 Polisi Diwygio'r Llysoedd
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

Ffôn: 020 3334 2985

E-bost: courtsreformpolicy@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir cael fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy wneud cais i courtsreformpolicy@justice.gsi.gov.uk.

Cwynion neu sylwadau

Os bydd gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

1. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Gweddnewid ein system gyfiawnder: crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad' ar 15 Medi 2016, law yn llaw â datganiad ar y cyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.
2. Roedd y papur yn amlinellu ein cynigion ar gyfer dyfodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi: rydym am i'n system gyfiawnder fod yn un y mae modd ei defnyddio'n haws ac yn gynt, gan roi gwell profiadau i'r rhai sy'n ei defnyddio, a gwell gwerth i'r trethdalwr. Yn fwy na dim, rhaid i'n system fod yn gymesur, yn hygyrch ac yn gyfiawn.
3. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn am dri maes penodol:
 - a. cyfleusterau digidol â chymorth;
 - b. euogfarnau ar-lein awtomatig; a
 - c. chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Daeth y cyfnod ymgynghori i roi ymatebion am gyfleusterau digidol â chymorth ac euogfarnau ar-lein awtomatig i ben ar 10 Tachwedd 2016; y dyddiad cau ar gyfer ymatebion am gyfansoddiad paneli oedd 24 Tachwedd 2016.¹ Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd am y cynigion hyn ac yn dangos sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu bwrw yn ei blaen.

¹ Cafodd y dyddiadau hyn eu hystyngiadau ar 17 Hydref 2016 o'r dyddiad cau gwreiddiol, sef 27 Hydref 2016.

Crynodeb o'r atebion

4. Cafwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion gan ymarferwyr cyfreithiol a grwpiau sy'n eu cynrychioli, elusennau a thrydydd partïon eraill, y farnwriaeth ac aelodau'r cyhoedd. Ceir mwy o fanylion am yr ymateb i bob cwestiwn isod.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cyfleusterau digidol â chymorth

5. Ystyr cyfleusterau digidol â chymorth yw'r trefniadau y byddwn yn eu sefydlu i gynorthwyo defnyddwyr i ymwneud â ni drwy sianeli digidol. Pan fydd gwasanaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM) wedi symud ar-lein, mae'n golygu y bydd cymorth ar gael i bobl sy'n ei chael yn anodd defnyddio technoleg. Nod gwasanaethau digidol â chymorth yw ateb anghenion y rheini sy'n mynd ati i ddefnyddio gwasanaeth digidol, sef yn bennaf y rheini sy'n apelio heb gynrychiolaeth, ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a defnyddwyr proffesiynol.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno mai'r sianelau a amlinellwyd (ffôn, gwe-sgwrs, wyneb yn wyneb a phapur) yw'r rhai priodol er mwyn galluogi pobl i ryngweithio â GLITEM mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

6. Cawsom gyfanswm o 336 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 47% o'r ymatebwyr yn cytuno mai'r sianeli a nodwyd oedd y rhai priodol, ac roedd 31% yn anghytuno.
7. Mynegodd cyfran fawr o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn bryderon am ddigideiddio gwasanaethau GLITEM, yn hytrach na rhoi sylwadau am y cynigion i roi cymorth digidol a geid yn y papur ymgynghori. Wrth i wasanaethau GLITEM symud ar-lein, byddwn yn sefydlu trefniadau i helpu pobl i ddefnyddio'r broses ddigidol, yn ogystal â galluogi pobl i barhau i ddefnyddio papur lle mae hynny'n angenrheidiol.
8. Roedd gan nifer o ymatebwyr bryderon am ddefnyddwyr sy'n debygol o'i chael yn anodd defnyddio sianeli digidol, yn enwedig pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rheini heb sgiliau digidol a'r rheini sydd â sgiliau llythrennedd neu sgiliau Saesneg gwael. Awgrymodd rhai bod y canrannau a geid yn y papur ymgynghori ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol neu bobl y mae angen cymorth digidol arnynt yn debygol o fod yn uwch o lawer ac ystyried cyfran y bobl yn y system gyfiawnder troseddol sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl neu Saesneg gwael.

Ein hymateb ni:

- a. Ni fyddwn yn gorfodi defnyddwyr gwasanaethau GLITEM i ddefnyddio sianeli digidol. Os bydd defnyddwyr yn penderfynu ymwneud â'r gwasanaethau hynny'n ddigidol, bydd ganddynt ddewis ynghylch pa sianel ddigidol â chymorth i'w defnyddio er mwyn cael help. Bydd y sianeli hyn yn cynnwys y ffôn, sgwrsio dros y we a phapur pan fydd galw am hynny neu pan wneir cais am hynny, a bydd ein holl wasanaethau yn cyfeirio'n glir at yr opsiynau hyn.

- b. Rydym yn cydnabod y bydd lefel y defnyddwyr sydd wedi'u hallgau'n ddigidol neu y mae angen cymorth digidol arnynt yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth, ac mae ein hymchwil cychwynnol yn cadarnhau hyn. Rydym hefyd yn cydnabod y ffactorau niferus sy'n dylanwadu ar allgau pobl yn ddigidol, a'r rheini'n aml yn ffactorau cymhleth
 - c. Bydd ein dull o roi cyfleusterau digidol â chymorth yn cael ei ddatblygu mewn ffordd raddol, gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cyfrannu'n helaeth at y broses. Byddwn yn treialu, yn cynnal ymchwil â defnyddwyr, ac yn profi'r cyfleusterau ar draws y sbectrwm sgiliau digidol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn ateb anghenion ein defnyddwyr, ac er mwyn parhau i wella'r cyfleusterau ar ôl eu lansio. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i asesu lefel y galw am gymorth digidol, gan y disgwyliwn i hyn amrywio ar draws y gwahanol awdurdodaethau.
 - d. Bydd yr ymchwil a'r gwaith profi hwn yn cynnwys ymwneud â grwpiau fel defnyddwyr hŷn, defnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd daearyddol anghysbell, defnyddwyr sydd ag anabledau corfforol a gwybyddol, defnyddwyr y mae Saesneg yn ail iaith iddynt a defnyddwyr sydd heb sgiliau digidol neu â lefel isel o sgiliau o'r fath. Fodd bynnag, ni fydd yr ymchwil a'r gwaith profi wedi'i gyfyngu i'r grwpiau hyn. Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg GLITEM, bydd gwasanaethau digidol â chymorth ar gael yn Gymraeg i'r rheini y mae angen y gwasanaethau hynny arnynt, drwy Ganolfannau Gwasanaethau i Gwsmeriaid GLITEM a darpariaeth wyneb yn wyneb.
9. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y gallai defnyddio'r dechnoleg yn y lle cyntaf fod yn anodd i nifer o bobl, hyd yn oed os oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol. Er enghraifft, efallai y bydd cost y dechnoleg yn rhwystr i rai defnyddwyr neu efallai na fydd band eang digon cyflym ar gael yn eu hardal.
- a. Drwy broses gaffael, byddwn yn creu rhwydwaith o sefydliadau partner a fydd yn gweithio â GLITEM i roi cymorth wyneb yn wyneb i ddefnyddwyr ar draws y DU sydd am ddefnyddio gwasanaethau digidol ond heb eu technoleg eu hunain. Bydd y rhain ar gael ledled y wlad a byddwn yn sicrhau bod modd i bawb eu defnyddio, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig. Bydd sianeli papur yn dal i fod ar gael i bobl y mae angen y rheini arnynt, yn ôl y galw.
 - b. Bydd cymorth digidol wyneb yn wyneb ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth am ddim, a disgwyliwn y bydd galwadau ffôn i'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn rhad neu am ddim.
10. Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau yn dweud er eu bod yn cytuno â'r sianeli a gynigiwyd, ond bod angen digon o gyllid ac adnoddau er mwyn i'r cymorth digidol fod yn effeithiol. Mae angen digon o gymorth wyneb yn wyneb a dros y ffôn yn benodol, a dylid cyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau ffôn a sgwrsio dros y we. Rhaid i staff fod yn wybodus ac wedi'u hyfforddi i lefel uchel.
- a. Bydd ein holl wasanaethau yn cael eu hasesu gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth ddigidol â chymorth yn cyrraedd safonau'r llywodraeth ac yn addas i ddefnyddwyr gwasanaethau GLITEM. Bydd staff rheng-flaen y Canolfannau Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn cael hyfforddiant helaeth er mwyn sicrhau bod modd iddynt ddelio'n effeithiol ag ymholiadau am gyfleusterau digidol â chymorth.
 - b. Bydd proses gaffael yn cael ei defnyddio i ddewis y darparwyr a fydd yn rhoi cymorth wyneb yn wyneb. Gwneir hyn drwy Fframwaith Hyfforddiant a Chymorth

Digidol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, a bydd y darparwyr felly wedi'u hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi gwasanaeth o safon dda. Bydd GLITEM yn pennu ac yn llywodraethu'r gofynion a fydd ar y darparwyr, a hynny ar sail anghenion y defnyddwyr. Bydd yr anghenion hynny wedi'u pennu yn eu tro drwy ein gwaith ymchwil.

- c. Bydd GLITEM yn defnyddio'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli am ardaloedd sydd wedi'u hallgau'n ddigidol er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael mewn ardaloedd lle mae galw mawr amdano, ac efallai y bydd yn caffael nifer o ddarparwyr er mwyn ateb y galw hwnnw. Mae GLITEM wedi neilltuo cyllideb i ariannu'r gwasanaethau digidol â chymorth ac mae'n cydnabod y bydd hyn yn gost barhaol a rheolaidd ar ôl i'r Rhaglen Ddiwygio gael ei chwblhau.
11. Canolbwyntiodd nifer o ymatebwyr ar rôl darparwyr trydydd parti: cyfeiriodd rhai at y ffaith y gallai'r gwasanaethau cymorth ychwanegol roi baich gormodol ar elusennau a sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth. Cyfeiriodd eraill at yr angen i sicrhau ansawdd ymhlith darparwyr trydydd parti, er y teimlai eraill nad oedd yn briodol eu defnyddio o gwbl.
- a. Mae gan GLITEM gyllideb i roi cymorth wyneb yn wyneb drwy un neu ragor o'i sefydliadau partner. Ein bwriad yw defnyddio Fframwaith Hyfforddiant a Chymorth Digidol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i gaffael y cymorth wyneb yn wyneb hwnnw, a hynny gan amrywiaeth o gyflenwyr a fydd wedi cael eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn addas i roi'r math hwn o gymorth. Bydd y Fframwaith yn ein galluogi i gynyddu neu leihau'r gofynion ar y gwasanaeth ar sail y galw ac anghenion y defnyddwyr, gan roi gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd tîm o reolwyr contractau GLITEM ar gael i fonitro'r defnydd, i fonitro data sy'n rhoi gwybodaeth am y broses reoli, ac i fonitro cytundebau lefel gwasanaeth, gan gynnwys yr ansawdd.
 - b. Bydd y broses gaffael ar gyfer ein darparwyr partner yn asesu capasiti'r sefydliad i roi cymorth yn unol â'r galw disgwylidig, a hynny gan roi gwasanaeth o ansawdd da i'n defnyddwyr. Bydd GLITEM yn ariannu'r cymorth wyneb yn wyneb a bydd hwnnw gael am ddim i ddefnyddwyr. Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr y bydd angen cymorth wyneb yn wyneb arnynt, neu gymorth drwy sianeli eraill, yn cael eu cyfeirio i'r man cywir. GLITEM fydd yn creu'r wybodaeth y bydd y darparwyr trydydd parti yn ei rhoi, a bydd ansawdd y cymorth hefyd yn cael ei lywodraethu gan safonau penodol.
12. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai digideiddio systemau GLITEM effeithio ar allu defnyddwyr i gael cymorth neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai sianeli digidol â chymorth allu rhoi cyngor cyfreithiol yn ogystal â chynghor technegol i ddefnyddwyr.
- a. Ni fydd gwasanaethau digidol â chymorth yn cael gwared â hawl defnyddwyr i gael eu cynrychioli: yr unig nod yw helpu'r rheini sy'n apelio heb gynrychiolaeth ac ymglyfreithwyr drostynt eu hunain i ddefnyddio prosesau digidol, ac ni fydd cymorth cyfreithiol ar gael drwy'r sianeli hyn. Bydd gan ddefnyddwyr yr un cyfleoedd i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ag ar hyn o bryd.
 - b. Yn ogystal â rhoi gwasanaethau digidol â chymorth i helpu defnyddwyr i ddefnyddio sianeli digidol yn llwyddiannus, bydd GLITEM yn sicrhau ei bod yn haws i ddefnyddwyr ddeall yr holl wasanaethau sydd wedi'u gweddnewid, a hynny drwy ail-ddylunio ffurflenni a chanllawiau, drwy wneud newidiadau i gydymffurfio â chanllawiau Saesneg Plaen, a thrwy gynnal ymchwil helaeth â defnyddwyr a

phrofi'r gwasanaethau ymhlith y defnyddwyr hynny. Rydym yn gweddnewid ein gwasanaethau er mwyn ateb anghenion ein defnyddwyr, ac o ganlyniad bydd ein gwasanaethau yn fwy cyfleus, yn gynt i'w defnyddio, ac yn gweddu i anghenion penodol ein defnyddwyr. Bydd dylunio gwasanaethau mewn ffordd gynhwysol, gan ymgorffori anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, o fudd i holl ddefnyddwyr gwasanaethau GLITEM.

13. Bydd ein gwasanaethau digidol â chymorth yn helpu defnyddwyr i ddechrau defnyddio ein gwasanaethau digidol. Dyma enghreifftiau o sut fath o brofiad y gallai rhywun sydd am ddefnyddio gwasanaethau digidol â chymorth ei gael:
 - a. Mae Defnyddiwr 1 wedi ymddeol. Mae hi'n dymuno dechrau'r broses o ysgaru â'i phartner. Nid yw erioed wedi bod yn berchen ar gyfrifiadur a dim ond ffôn symudol hen iawn sydd ganddi. Mae hi'n deall y byddai'r broses ysgaru ddigidol yn llawer symlach a chynt na llenwi deunyddiau papur ei hun, ond nid oes ganddi gyfrifiadur ac nid yw'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn i un o'i chyfeillion am help. Mae hi'n galw Canolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid GLITEM am gyngor, ac yn cael gwybod y gall hi ymweld â sefydliad lleol i gael help â'r broses ddigidol. Mae hi'n trefnu apwyntiad yn ystod ei galwad ffôn â'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Mae hi wedyn yn ymweld â'r sefydliad i gwblhau'r cais ar-lein, lle mae hi'n cael help i ddilyn y broses ddigidol ac yn cael cynnig cymorth wyneb yn wyneb gydol gweddill y broses ddigidol.
 - b. Mae Defnyddiwr 2 wedi cael hysbysiad am drosedd. Mae'r hysbysiad yn datgan y gall ymateb ar-lein ac yn ei gyfeirio at wefan lle gall wneud hyn. Mae gan y defnyddiwr gyfrifiadur tabled ond dim ond i gyfathrebu â ffrindiau a theulu ar Skype y mae'n defnyddio hwn. Mae'n bryderus am gwblhau'r ffurflen ar ei ben ei hun ac yn ofni y bydd yn gwneud camgymeriadau. Mae felly yn galw'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid ac yn siarad â chynghorwr. Mae'r cynghorwr yn canfod fod gan y defnyddiwr dechnoleg addas ac yn ei helpu drwy'r broses ar-lein dros y ffôn. Mae'r defnyddiwr yn cael help i ddilyn y broses ar-lein, yn cael gwybod sut i weld yr holl dystiolaeth a phapurau'r achos, a sut i bledio neu symud i gam nesaf y broses. Nid yw'r cynghorwr yn rhoi cyngor cyfreithiol, cyngor am gryfder yr achos, na chynghor am sut i bledio. Fel y sefyllfa ar hyn o bryd, byddai cyngor am y materion hynny ar gael gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol.

Cwestiwn 2: A ydych yn credu bod unrhyw sianel yn benodol addas i fathau penodol o wasanaethau GLITEM? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

14. Cawsom 306 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i gael amrywiaeth eang o sianeli, ac y dylai defnyddwyr gael dewis pa rai i'w defnyddio. Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld y bydd cymorth wyneb yn wyneb yn dal i fod ar gael, yn enwedig i ddefnyddwyr hŷn a'r rheini sy'n anabl neu ag anawsterau dysgu ac a all ei chael yn fwy anodd sgwrsio ar-lein neu dros y ffôn. Fel y nodir uchod, teimlai'r ymatebwyr y byddai angen adnoddau digonol ar gyfer rhoi cymorth wyneb yn wyneb, ac y dylai hwnnw fod ar gael i bawb, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle nad oes cysylltiadau trafniadaeth da.
15. Dywedodd nifer fod cymorth dros y ffôn hefyd yn sianel bwysig, ac awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai cymorth drwy sgwrsio ar y we a dros e-bost yn ddefnyddiol i'r rheini sydd eisoes â rhyw lefel o sgiliau digidol. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai angen i sianeli papur fod ar gael o hyd i'r rheini sy'n methu cyfathrebu ar-lein.

Ein hymateb ni:

- a. Er nad yw hyn yn rhan o'r gwasanaeth digidol â chymorth, bydd sianeli papur yn dal i fod ar gael, lle mae hynny'n angenrheidiol. Byddwn yn rhoi cymorth i ddefnyddwyr ymwneud â gwasanaethau'n ddigidol ond yn rhoi cymorth gwahanol os nad yw hyn yn bosibl.
- b. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu ein gwasanaeth digidol â chymorth drwy gynnal ymchwil, treialu, a phrofi â defnyddwyr. Bydd hon yn broses barhaol, ond gwyddom y bydd gwasanaeth cymorth dros y ffôn ar gael drwy sefydlu Canolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid genedlaethol. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio sgwrsio dros y we, ac yn rhagweld y bydd y Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn darparu'r gwasanaeth hwn.
- c. Bydd gwaith y Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb (mae'r manylion uchod) yn cael ei addasu er mwyn helpu defnyddwyr y mae angen cymorth arnynt i gyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, neu sydd angen rhywun arall i weithredu ar eu rhan. Ond ni fydd y cymorth yn gyfyngedig i hyn yn unig.

Euogfarnau ar-lein awtomatig a chosbau safonol statudol

16. Roedd y papur ymgynghori yn cynnig cyflwyno gweithdrefn ar gyfer rhoi euogfarnau ar-lein awtomatig a fydd yn galluogi rhai diffynyddion mewn achosion addas i ddatrys eu hachosion yn gyfan gwbl ar-lein. O dan y cynnig hwn, byddai diffynyddion sy'n dewis dilyn y weithdrefn ar-lein ac yn pledio'n euog yn cael cynnig cosb sydd wedi'i phennu'n barod (gan gynnwys talu unrhyw iawndal a chostau perthnasol). Byddent hefyd yn cael euogfarn ac yn gorfod talu'r swm yn syth. Ein bwriad oedd profi'r system gyda'r troseddau diannod hyn, lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar: osgoi talu am docyn rheilffordd, osgoi talu am docyn tram, a meddu ar wialen a lein bysgota heb drwydded.
17. Er bod y papur ymgynghori yn cyfeirio at ddirwy benodol sefydlog, rydym wedi newid y geiriad i gyfeirio at gosb safonol statudol. Mae hyn gan fod y gosb safonol statudol yn gallu cynnwys nifer o elfennau - Gordal i Ddiodefwy, cosbau'r erlyniad ac iawndal, yn ogystal â dirwy - fel y nodir ym mharagraff 21e. Rydym hefyd yn bwriadu disgrifio'r weithdrefn hon fel gweithdrefn euogfarnau ar-lein awtomatig, er mwyn gwahaniaethu ag achosion yn y llys troseddol a all gael eu cynnal ar-lein.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno ag egwyddor proses cosb safonol statudol ar gyfer y rhai sy'n pledio'n euog ar-lein ac sy'n fodlon mynd rhagddynt gyda'r broses? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

18. Cawsom gyfanswm o 280 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor yn y cynnig, ac roedd 20% o'r ymatebwyr yn anghytuno.
19. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig y byddai'n gyfle i greu prosesau mwy effeithlon, a hynny o safbwynt GLITEM a defnyddwyr y llysoedd ill dau. Nodwyd bod potensial i hyn fod yn ffordd synhwyrol o symleiddio'r broses mewn achosion penodol, uniongyrchol. Ar gyfer achosion lefel isel lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar, roedd nifer o'r farn y dylai defnyddwyr allu dilyn gweithdrefn syml, gyflym os ydynt yn derbyn eu bod yn euog ac yn barod i dalu cosb safonol: byddai hyn yn rhyddhau amser ynadon i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.

20. Roedd gan rai ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor bryderon na fyddai'r farnwriaeth yn rhan o'r weithdrefn. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y gallai fod amgylchiadau lliniarol y dylai barnwr eu hystyried wrth bennu dedfryd addas. Yn yr un modd, roedd gan rai ymatebwyr bryderon am osod dedfrydau 'drwy algorithm', sef y syniad mai rhaglenni cyfrifiadurol fyddai bellach yn gwneud y penderfyniadau y mae barnwyr yn eu gwneud ar hyn o bryd.
21. Mae pryderon hefyd wedi'u mynegi am yr angen i ddiffynyddion 'fynd o flaen eu gwell'. Mae ymatebwyr wedi dadlau y byddai'r broses hon yn cael gwared ar yr hawl sydd gan ddiffynyddion i'w hamddiffyn eu hunain mewn llys agored. Mae rhai wedi mynegi pryder hefyd y gallai'r polisi hwn fod yn groes i Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i dreial teg),

Ein hymateb ni:

- a. Rydym wedi ystyried yr ymatebion yn llawn ac yn credu ei bod yn bosibl erlyn achosion ar lefel isel drwy weithdrefn euogfarnau ar-lein awtomatig a thrwy roi cosb awtomatig, safonol yn yr achosion hyn heb danseilio egwyddorion ein system gyfiawnder y cyfeirir atynt uchod. Wrth i ni greu'r broses, byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a wnaed gan yr ymatebwyr am y model a'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod y system yn gweithio'n iawn.
- b. Bydd y weithdrefn euogfarnau ar-lein awtomatig yn cyfrannu at nod y Llywodraeth o ddarparu gwasanaeth sy'n gyfiawn, yn gymesur, yn hygyrch i bawb ac yn gweithio'n well i bawb. Bydd y weithdrefn yn rhoi dull mwy effeithiol a chymesur o ddelio ag achosion lefel isel lle na fydd neb wedi dioddef, gan ryddhau amser ynadon a gofod yn adeiladau'r llysoedd i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.
- c. Bydd deddfwriaeth sylfaenol yn cyfyngu'r troseddau y gellir eu herlyn drwy'r weithdrefn euogfarnau ar-lein awtomatig, a hynny i droseddau diannod penodol yn unig, lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar. Byddai'r union droseddau yn cael eu dynodi mewn is-ddeddfwriaeth; wrth ddewis cynnwys trosedd ai peidio, rhoddir ystyriaeth i'r disgrisiwn sydd ar gael wrth roi dedfryd am y drosedd honno. Dim ond diffynyddion sy'n dewis pledio'n euog, heb roi dim amgylchiadau lliniarol, y gellir eu herlyn drwy'r weithdrefn hon. Mae'n hynod bwysig nodi hefyd bod yn rhaid iddynt fynd ati i ddewis defnyddio'r broses awtomatig (gweler pwynt d. isod). Mae'n rhaid i ddiffynyddion fod dros 18 oed pan fyddant yn cyflawni'r drosedd yn ogystal. O ganlyniad, yn gyffredinol, dim ond i achosion lle nad oes angen i ynadon wneud mwy na'r lleiafswm o waith y bydd y weithdrefn hon yn berthnasol. Fel arall, byddai un ynad yn penderfynu ar yr achosion hyn ar bapur heb fod angen gwrandawriad llys, a hynny drwy'r Weithdrefn Un Ynad. Credwn y bydd o fudd i holl ddefnyddwyr y llysoedd pe bai modd delio ag achosion syml, lle nad oes gwrthwynebiad, heb oedi diangen, gan roi mwy o amser i ynadon ystyried achosion mwy cymhleth.
- d. Bydd gan ddiffynyddion o hyd yr hawl i gyflwyno amgylchiadau lliniarol ac i ofyn i ynad ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol. Os bydd y diffynnydd am bledio'n euog ond nad yw'n dymuno derbyn y gosb safonol neu'r euogfarn ar-lein awtomatig (er enghraifft, oherwydd bod arno eisiau egluro'r amgylchiadau lliniarol neu am i lys ystyried gwybodaeth am ei fodd) gall yn hytrach ddewis cael ynad i ystyried y wybodaeth honno drwy'r Weithdrefn Un Ynad, neu gael llys i wrando'r achos. Byddai pledio'n ddieuog yn golygu y byddai'r achos yn cael ei restru ar gyfer treial gerbron llys yn awtomatig.
- e. Mae'r weithdrefn ar-lein yn gwbl wirfoddol: bydd angen i ddiffynyddion fynd ati'n bwrpasol i ddewis defnyddio'r weithdrefn hon a bydd cyfle iddynt dynnu'n ôl a

dewis delio â'u hachos drwy'r Weithdrefn Un Ynad neu gerbron llys yn lle hynny. Byddant yn cael yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniad doeth ynghylch dilyn y weithdrefn hon ai peidio, gan gynnwys manylion y dystiolaeth yn eu herbyn, goblygiadau posibl dewis y weithdrefn hon a'r ddirwy sefydlog arfaethedig a'r costau a'r cosbau ariannol eraill a fyddai'n dilyn. Credwn y bydd y system yn galluogi diffynnydd i wneud dewis doeth ynghylch bwrw ymlaen ai peidio (yn sgil natur wirfoddol y broses, a'r ffaith y bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhoi cyn i neb dderbyn euogfarn a chosb safonol), a bydd hyn yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

- f. Nid yw unigolyn sy'n cael euogfarn drwy'r weithdrefn hon yn cael ei ddedfrydu gan gyfrifiadur na thrwy algorithm. Bydd manylion y gosb wedi'u pennu mewn is-ddeddfwriaeth a bydd maint y gosb safonol sydd i'w rhoi i droseddwr wedi'i ddynodi ar gyfer pob trosedd. Bydd cyfanswm y gosb yn cynnwys: y Gordal i Ddiodefwyr y bydd yn rhaid ei dalu, sef canran o'r ddirwy fel ar hyn o bryd; swm safonol tuag at gostau'r erlyniad; a gall gynnwys iawndal syml am golled ariannol, lle mae hynny'n briodol (e.e. refeniw tocynnau na thalwyd amdanynt) hyd at lefel benodedig.

22. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu y gall proses ar-lein danseilio arwyddocâd y troseddau hyn os bydd yn caniatáu i bobl gyflawni troseddau heb wynebu'r 'cywilydd' o fod o flaen eu gwell a chael eu dedfrydu mewn llys cyhoeddus. Yn benodol, mae ymatebwyr wedi datgan na ddylid defnyddio'r broses hon ar gyfer troseddwr difrifol neu'r rheini sy'n aildroseddu.

- a. Fel y nodir uchod, dim ond i achosion lle nad oes angen i ynadon, yn gyffredinol, wneud mwy na'r lleiafswm o waith y bydd y weithdrefn hon yn berthnasol. Fel arall, byddai un ynad yn penderfynu ar yr achosion hyn ar bapur heb fod angen gwrandawriad llys. Mae'n annhebygol, felly, y bydd y diffynnyddion y bydd y cynllun hwn yn berthnasol iddynt yn bresennol yn y llys o dan y system bresennol beth bynnag, gan ei bod yn debygol iawn y byddai eu hachos yn cael ei glywed o dan y Weithdrefn Un Ynad.
- b. O ran tryloywder, rydym ar hyn o bryd yn datblygu modd o sicrhau ein bod yn cynnal egwyddor cyfiawnder agored wrth symud i sianeli digidol. Byddwn yn sicrhau bod yr holl bartïon sydd â diddordeb mewn achos, gan gynnwys y diodefwyr, tystion, y cyhoedd a'r wasg, yn gallu gweld rhestr o'r achosion a'u canlyniadau lle mae hynny'n briodol.
- c. Cytunwn na fyddai'r weithdrefn hon yn briodol ar gyfer troseddwr difrifol neu rai sy'n aildroseddu. Fel y nodir uchod, dim ond i droseddau diannod, lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar, y bydd y weithdrefn yn berthnasol, a'r rheini wedi'u dynodi mewn is-ddeddfwriaeth yn droseddau sy'n addas i'w herlyn drwy'r weithdrefn hon. Fel y nodir yn y Papur Ymgynghori, byddai erlynwyr yn rhydd i benderfynu a yw achos penodol yn addas ar gyfer y weithdrefn hon, a gallant ystyried unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu'r achos, fel aildroseddu.

Cwestiwn 4: A ydych yn meddwl bod yna unrhyw ystyriaethau ychwanegol y dylem eu ffactora i'r model hwn? Rhestrwch ystyriaethau ychwanegol os gwelwch yn dda.

23. Cawsom 248 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Pryder mawr a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd na fyddai rhai defnyddwyr sy'n agored i niwed, ac yn enwedig y rheini sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl neu sgiliau iaith gwael, yn gallu deall goblygiadau hirdymor pleidio'n euog a derbyn euogfarn droseddol a'r gosb safonol. Efallai y bydd rhai defnyddwyr yn ofni gorfod mynd i'r llys ac yn teimlo o dan

bwysau i bledio'n euog, ac yn dewis dilyn y broses hon hyd yn oed os ydynt yn ddieuog neu os oes amgylchiadau lliniarol.

Ein hymateb ni:

- a. Bydd y system yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed gan y bydd wedi'i chynllunio i atal defnyddwyr rhag pledio'n euog heb ddeall yn llwyr eu penderfyniad a'r goblygiadau posibl. Bydd diffynyddion yn cael yr holl dystiolaeth berthnasol sydd yn eu herbryn gan yr erlynydd wrth ystyried a ydynt am ddewis dilyn y weithdrefn euogfarnau ar-lein awtomatig. Bydd rhan o'r broses yn cyflwyno 'coeden benderfynu', a fydd yn gofyn i'r defnyddiwr dderbyn ei fod wedi deall y wybodaeth a gyflwynwyd iddo, gan sicrhau nad yw'n pledio'n euog pan na ddylai wneud hynny. Bydd goblygiadau posibl cael euogfarn droseddol, fel y system ddatgelu, yn cael eu hesbonio'n glir.
 - b. Bydd y system yn cael ei dylunio i roi cymaint o eglurder â phosibl ac yn cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau cymorth pan fydd hynny'n berthnasol: bydd defnyddwyr yn cael cyngor i geisio cymorth gan Cyngor ar Bopeth neu ddarparwr gwasanaethau cyfreithiol cyn bwrw yn eu blaenau, a byddant hefyd yn cael eu cyfeirio at Ganolfannau Gwasanaethau i Gwsmeriaid GLITEM, a fydd yn gallu rhoi cymorth digidol yn ogystal ag ateb cwestiynau am wahanol weithdrefnau. Fel y nodir yn yr adran ar wasanaethau digidol â chymorth uchod, bydd defnyddwyr yn gallu cael cymorth wyneb yn wyneb gan ddarparwr trydydd parti.
 - c. Bydd diffynyddion yn cael y wybodaeth am holl elfennau'r gosb safonol a fydd yn cael eu rhoi, a byddwn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut y gall y weithdrefn a ddewisant effeithio ar y canlyniad, gan y gall y ddirwy sefydlog ac elfennau eraill y gosb amrywio o'u cymharu â'r symiau y gallai ynad eu gosod. Bydd Saesneg clir yn cael ei defnyddio er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall pethau cymaint ag y bo modd. Mae'n bwysig cofio y bydd angen i ddefnyddwyr fynd ati'n rhagweithiol i ddewis dilyn y weithdrefn hon, ac y bydd y llwybrau eraill yn cael eu hesbonio'n glir.
 - d. Bydd y system yn cael ei datblygu ar y cyd â'r defnyddwyr, sy'n golygu y byddwn yn defnyddio adborth i ddatblygu'r system yn raddol, ac i'w gwella er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'w diben wrth i fwy o achosion ddod yn rhan ohoni. Byddwn yn helpu defnyddwyr gydol eu siwrne wrth iddynt ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau, ac mae'r cyfan ohonynt yn cael eu datblygu gyda golwg ar y defnyddwyr hyn. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau digidol â chymorth yn rhoi sylw i anghenion yr henoed neu'r rheini sydd ag anabledau, y rheini sydd â sgiliau llythrennedd neu sgiliau Saesneg gwael, neu'r rheini sy'n methu â defnyddio technoleg oherwydd y gost neu ffactorau daearyddol. Byddwn yn treialu'n helaeth, yn cynnal ymchwil ymhlith defnyddwyr ac yn profi pethau ar draws y grwpiau hyn a sawl grŵp arall, a byddwn yn parhau i wella'r ddarpariaeth ddigidol â chymorth yn raddol.
 - e. Bydd gan y llysoedd hefyd bwerau i ddiddymu euogfarn a dechrau achos o'r newydd os bydd modd profi maes o law nad oedd y diffynnydd yn deall goblygiadau ei benderfyniad.
24. Mynegodd rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn bryderon cyffredinol am ddigideiddio'r system gyfiawnder. Yn benodol, cyfeiriwyd at y bobl hynny nad ydynt yn gallu

defnyddio sianeli digidol – oherwydd anabledd, diffyg sgiliau digidol, neu gost defnyddio technoleg – gan bwysleisio na ddylent gael gwasanaeth o ansawdd is.

25. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai cynrychiolwyr cyfreithiol neu aelodau'r teulu allu defnyddio'r system ar-lein ar ran diffynnyddion, gan awgrymu y gallai hynny leihau rhai o'r pryderon ynghylch digideiddio.
- Fel y nodir uchod, mae sicrhau bod gan bob defnyddiwr fodd o gael cyfiawnder teg ac agored yn flaenoriaeth bwysig yn y gwaith o ddiwygio GLITEM, ac rydym yn datblygu strategaeth ar gyfer gwasanaethau digidol â chymorth a fydd yn cyflawni hyn. Bydd diffynnyddion yn gallu cael help er mwyn ymwneud â'r broses drwy sianelau digidol â chymorth os byddant yn dymuno hynny. Bydd modd i ddefnyddwyr hefyd ddefnyddio ein Canolfannau Gwasanaethau i Gwsmeriaid a fydd yn gallu rhoi help a chymorth gyda mathau o ymholiadau sy'n ymwneud mwy â gweithdrefnau. Ar y llaw arall, gallant ddewis peidio â defnyddio'r system ac yn lle hynny ddewis delio â'u hachos drwy'r Weithdrefn Un Ynad neu gerbron llys.
 - Gan y bydd pledio o dan y system hon yn arwain at euogfarn, bydd angen i'r system ddiogelwch sicrhau bod y diffynnydd cywir yn pledio. Bydd y system yn cael ei dylunio i wirio pwy ydynt ac i sicrhau eu bod yn pledio ynghylch y drosedd gywir.
 - Pe bai modd i nifer o ddefnyddwyr weld un ffeil achos, byddai hynny'n tansellio hygreddd a diogelwch y system yn fawr. Mae hyn yn golygu na fyddai'n beth da galluogi aelodau'r teulu i weld ffeil achos, yn annibynnol ar y diffynnydd.
26. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu bod nifer o ddiffynnyddion yn debygol o bledio'n euog er mwyn 'cael gwared â'r mater', hyd yn oed os ydynt yn gwybod eu bod yn ddieuog. Yn benodol, gallai hyn fod yn wir yn achos diffynnyddion sydd ar incwm isel a allai gredu ei bod yn rhatach talu'r gosb safonol nag amddiffyn eu hunain yn y llys ac wynebu'r risg o gael dirwy uwch am bledio'n ddieuog.
- Rydym wedi ystyried y posibilrwydd y gallai cosbau safonol gymell diffynnyddion i bledio'n euog pan na ddylent, a byddwn yn ystyried hyn wrth bennu lefelau'r cosbau safonol, yn ddibynnol ar gael cymeradwyaeth y senedd i'r ddeddfwriaeth. Bydd diffynnyddion sy'n defnyddio'r system awtomatig ar-lein yn cael rhybuddion clir ar y sgrin am eu hawl i gael treial; ffeithiau am yr euogfarn, gan gynnwys y posibilrwydd y byddai angen ei datgelu mewn rhai amgylchiadau; a goblygiadau'r gosb safonol. Caiff y rhybuddion hyn eu rhoi cyn bod modd dewis dilyn y weithdrefn ar-lein. Credwn y bydd hyn yn rhoi digon o wybodaeth i'r diffynnydd am oblygiadau dewis dilyn y weithdrefn hon. Bydd y system yn egluro'n glir y bydd dewis peidio â dilyn y weithdrefn ar-lein yn golygu y bydd achos diffynnydd yn cael ei ystyried gan ynad neu farnwr, a fydd yn gallu ystyried modd y diffynnydd ac a fydd â rhyddid i benderfynu ar natur y cosbau ychwanegol, fel costau'r erlyniad neu iawndal. Gellid dylunio'r system hefyd er mwyn cyfeirio diffynnyddion at ffynonellau cymorth fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth cyn iddynt wneud penderfyniad.
27. Mae rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon am ddiogelwch dros y we: pryderon y gallai unigolion ddefnyddio twyll i ddweud mai hwy yw'r defnyddiwr perthnasol er mwyn rhoi cosb droseddol i'r person hwnnw'n faleisus, neu bryderon mwy cyffredinol am ddiffyg diogelwch cynhenid systemau TG.
- Rydym wedi rhoi sylw i'r pryderon hyn a byddwn yn sicrhau bod y system yn cael ei dylunio i'r ansawdd uchaf o ran diogelwch digidol. Bydd angen i ddiffynnyddion roi

data personol er mwyn cadarnhau mai hwy yw'r defnyddiwr cywir, ac mae hyn yn debygol o gynnwys eu dyddiad geni, Cyfeirnod Unigryw yr erlyniad a'u Rhif Yswiriant Gwladol.

**Cwestiwn 5: A ydych yn credu bod y camau diogelu arfaethedig yn ddigonol?
Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

28. Cawsom gyfanswm o 261 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 40% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y camau diogelu yn ddigonol, ac roedd 23% o'r ymatebwyr yn anghytuno.
29. O'r rhai nad oedd yn cytuno, roedd un o'r pwyntiau a wnaed amlaf yn ymwneud â chyngor cyfreithiol, a'r pryder y byddai'r broses hon yn cael gwared ar y cyfleoedd a ddylai fod ar gael i bobl gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Awgrymodd dau ymatebwr y dylai fod gofyn i'r rheini sy'n dymuno dilyn y weithdrefn ar-lein gael cyngor cyfreithiol a phrofi eu bod wedi deall goblygiadau pledio'n euog.

Ein hymateb ni:

- a. Bydd gan ymatebwyr 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad am yr euogfarn i geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain. Mewn achosion mor syml â'r rhain, mae nifer o ddiffynnyddion eisoes yn bwrw'n eu blaenau heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Fodd bynnag, os bydd diffynnydd yn dymuno hynny, bydd ganddynt yr un cyfle i gael cyngor cyfreithiol ag sydd ganddynt ar hyn o bryd. O ganlyniad, er ein bod wedi ystyried sylwadau'r ymatebwyr yn hyn o beth, credwn nad oes angen ei gwneud yn orfodol i bobl ddangos eu bod wedi cael cyngor cyfreithiol. Bydd goblygiadau cael euogfarn yn cael eu cyflwyno'n glir, a bydd hawl gan ddiffynnyddion bob amser i ofyn i ynad edrych ar eu hachos eto, naill ai drwy'r Weithdrefn Un Ynad neu mewn gwrandawriad.
- b. Bydd y system yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth, fel Cyngor ar Bopeth, yn ogystal ag at Ganolfannau Gwasanaethau i Gwsmeriaid GLITEM, lle gallant gael cyngor neu help.
30. Mae ambell ymatebwr wedi mynegi pryderon y gallai erlynwyr gamddefnyddio'r system, naill ai drwy gyflwyno achosion islaw'r safon neu drwy ddefnyddio'r weithdrefn ar gyfer achosion a ddylai gael sylw'r farnwriaeth, o bosibl am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a chostau.
- a. Dim ond erlynwyr sydd wedi'u hawdurdodi a fydd yn gallu defnyddio'r broses hon. Bydd diffynnyddion yn cael gweld yr holl dystiolaeth berthnasol yn eu herbyn. Bydd y system yn cael ei dylunio i sicrhau bod erlynwyr yn gorfod cyflwyno lefel sylfaenol o wybodaeth, ac os na fyddant yn gwneud hynny, bydd y system yn rhoi gwybod i'r erlynnydd bod angen gwneud hyn. Bydd GLITEM yn adolygu sampl o achosion fel rhan o'r broses o sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod achosion yn cyrraedd y safonau gofynnol.
- b. Bydd gofyn i erlynwyr baratoi pob achos a'r dystiolaeth sy'n cyd-fynd i'r un ansawdd ag wrth baratoi achos sydd i'w glywed mewn llys agored. Ni fydd yr erlynnydd yn gwybod sut y bydd y diffynnydd yn pledio nac yn gwybod a fydd y diffynnydd yn dewis defnyddio'r system ar-lein, yn dewis delio â'r achos drwy'r Weithdrefn Un Ynad, ynteu'n dewis delio â'r achos yn y llys. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau bod erlynwyr yn llunio achosion teg gyda'r wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn i'r diffynnydd wneud dewis doeth am eu hachos.

31. Er bod ymatebwyr wedi cytuno ei bod yn bwysig i'r llys allu diddymu'r euogfarn pe bai modd profi nad oedd y diffynnydd yn deall goblygiadau ei benderfyniad, mae rhai wedi cwestiynu sut y bydd y llys yn gwybod mai dyma'r sefyllfa. Os na fydd diffynnydd wedi deall y goblygiadau wrth bledio, o bosibl gan fod ganddo broblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, mae'n annhebygol y bydd yr adnoddau ganddynt i gwestiynu'r penderfyniad hwn yn ddiweddarach.
- a. Byddwn yn sicrhau bod y system yn cynnwys gwybodaeth glir fel bod y diffynnydd yn ymwybodol y bydd yn cael euogfarn a chosb (a gwybodaeth am y gyfundrefn ddatgelu lle mae hynny'n briodol). Os na fydd diffynnydd yn talu'r gosb ac os bydd achos gorfodi yn mynd rhagddo, gallai swyddog gorfodi hefyd gyfeirio'r diffynnydd at yr opsiynau sydd ar gael (h.y. gwneud cais i'r llys i ailagor yr achos os bydd hynny'n briodol).

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod y troseddau a restrir uchod yn briodol ar gyfer y weithdrefn hon, ac a ydych yn cytuno â'n cynnig i ymestyn hynny i droseddau eraill yn y dyfodol, yn cynnwys troseddau gyrru? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

32. Cawsom gyfanswm o 265 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 49% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ac roedd 20% o'r ymatebwyr yn anghytuno.
33. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y weithdrefn yn cytuno bod y troseddau arfaethedig yn addas gan eu bod yn rhai syml ac uniongyrchol.
34. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon mai dim ond blaen y gyllell oedd y troseddau hyn, gan bwysleisio na ddylai'r llywodraeth ehangu'r weithdrefn i gynnwys troseddau eraill heb ymgynghori ymhellach ar hynny.
35. Awgrymodd ymatebwyr nifer o droseddau diannod yn rhai a allai fod yn addas i'w cynnwys.

Ein hymateb ni:

- a. Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr am eu gwahanol awgrymiadau, a fydd yn gymorth inni benderfynu pa droseddau a all fod yn addas i'w cynnwys yn y broses hon yn y dyfodol.
- b. Fel y nodir yn y papur ymgynghori, bwriadwn brofi sut y mae'r weithdrefn newydd hon yn gweithio gan ddefnyddio nifer cyfyngedig o droseddau i gychwyn. Bydd y rhain yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth, felly bydd angen i'r Senedd eu cymeradwyo. Bydd unrhyw droseddau eraill hefyd yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth a bydd y rhain hefyd felly yn cael sylw prosesau a gwaith craffu'r Senedd.
36. Mae cynrychiolwyr y proffesiwn cyfreithiol wedi mynegi pryderon go sylweddol am y troseddau hyn. Er enghraifft, awgrymodd y Kent Law Society y gallai osgoi talu am docyn rheilffordd fod yn drosedd anaddas ar gyfer rhoi euogfarn ar-lein awtomatig a chosb benodol amdani, gan na fyddai'r system yn gwahaniaethu rhwng y rheini sydd heb y modd i dalu, a'r rheini sy'n gallu fforddio prynu tocyn ond yn dewis peidio â gwneud hynny. Gan ddatblygu'r thema hon, mae rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon y byddai'r system ar-lein yn tanseilio natur anonest y troseddau cymwys arfaethedig, ac yn sgil hynny, ddifrifoldeb eu cyflawni. Maent yn ofni y byddai hyn naill ai'n arwain at lai o barch at y gyfraith, neu'n arwain at ddiffynyddion yn methu â sylweddoli pa mor ddifrifol yw cael euogfarn am y troseddau hyn.

- a. Fel y nodir uchod, bydd esboniadau clir yn cael eu rhoi i ddefnyddwyr am oblygiadau defnyddio'r system ar-lein.
 - b. Rydym yn cynnig cyfyngu'r broses i droseddau lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar. O ran osgoi talu am docynnau rheilffordd, byddai hyn yn golygu bod troseddau atebolrwydd llwyr (methu â chyflwyno tocyn) yn berthnasol ond nid felly droseddau sy'n golygu anonestrwydd/osgoi talu'n fwriadol.
37. Cymysg oedd yr ymateb i'r posibilrwydd o ehangu'r weithdrefn i gynnwys troseddau gyrru. Mae llawer yn cytuno y byddai'r broses yn addas ar gyfer achosion syml lle nad oes neb i'w weld wedi dioddef, ond mae eraill yn pryderu bod troseddau gyrru'n gallu bod yn fwy cymhleth nag y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf, a'u bod yn gallu arwain at wahardd diffynyddion rhag gyrru. Mae rhai ymatebwyr hefyd wedi awgrymu bod angen disgresiwn barnwrol i benderfynu ar ddedfrydau am droseddau goryrru: er enghraifft, efallai y dylai gyrrwr gael dirwy lymach am oryrru o flaen ysgol yn ystod y prynhawn nag yng nghanol nos.
- a. Ceir amrywiaeth eang o droseddau traffig diannod lle nad oes modd rhoi dedfryd o garchar, a chredwn fod nifer o'r rhain o bosibl yn addas i'w cynnwys yn y weithdrefn newydd. Rydym yn ymwybodol bod cymhlethdodau penodol ynghlwm wrth droseddau traffig, a bwriadwn ddatblygu'r polisi hwn drwy gydweithio'n llwyr ag erlynwyr yr heddlu a rhanddeiliaid eraill. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i faterion sy'n gwaethygu'r drosedd mewn rhai achosion; sut i roi pwyntiau cosb; a'r angen am ddisgresiwn barnwrol wrth wahardd pobl rhag gyrru. Disgwyliwn y bydd cyfyngiadau wrth ddefnyddio'r broses hon ar gyfer troseddau traffig.
38. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid diddymu'r troseddau sydd i'w cynnwys yn y cynllun hwn, gan ddelio â hwy drwy'r broses sifil yn lle.
- a. Er y gallai'r troseddau hyn fod yn addas ar gyfer rhoi euogfarn ar-lein awtomatig, byddem yn dadlau eu bod yn droseddau o hyd, a'r rheini'n ddigon difrifol i arwain at euogfarn droseddol a chosb, fel y penderfynodd y Senedd pan gawsant eu creu.

Cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd

39. Yn y ddogfen ymgynghori, roeddem yn cynnig diwygio Gorchymyn Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Cyfansoddiad Tribiwnlys) 2008 er mwyn rhoi mwy o ryddid i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fabwysiadu dull mwy cymesur a hyblyg o bennu cyfansoddiad paneli, a hynny drwy:
- a. darparu bod panel tribiwnlys yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnwys un aelod oni phenderfynir fel arall gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd; a
 - b. cael gwared â'r gofyniad presennol i ystyried y trefniadau oedd yn bodoli cyn i'r tribiwnlys gael ei drosglwyddo i'r system unedig.
40. Er bod paragraff 7.3.8 o'r papur ymgynghori yn egluro y byddai arbenigedd neu wybodaeth arbenigol yn dal i fod ar gael pan fyddai angen hynny, roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu y byddai barnwyr unigol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i wrando ar achosion lle'r oedd galw am arbenigedd neu wybodaeth arbenigol..
41. Nid yw'n fwriad cael paneli un aelod ym mhob achos nac ym mhob awdurdodaeth, ac rydym am bwysleisio mai'r bwriad yn bendant yw y bydd modd i aelodau anghyfreithiol barhau i gyfrannu a rhannu eu harbenigedd mewn achosion lle bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn credu bod hynny'n briodol. O ganlyniad, byddwn yn esbonio'n glir yn y Gorchymyn y gall Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddarparu y dylai panel gynnwys

un, dau neu dri aelod, yn ôl y galw, er mwyn penderfynu ar y materion sydd gerbron y tribiwnlys mewn ffordd gyfiawn a theg.

42. Nid yw'r cynigion yn awgrymu newid y trefniadau presennol sy'n pennu mai Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd sy'n gyfrifol am benderfynu ar gyfansoddiad paneli. Wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, mae'n bwysig nodi bod Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd roi sylw i'r angen i dribiwnlysoedd fod yn deg, yn hygyrch ac yn gyflym. Rhaid iddo ystyried hefyd a oes angen i aelodau tribiwnlysoedd fod yn arbenigwyr yn y pwnc neu'r gyfraith sy'n berthnasol i'r achosion y byddant yn penderfynu arnynt, ac i'r angen i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys y math o anghydfodau a ddaw gerbron tribiwnlysoedd.
43. Nid bwriad y Llywodraeth yw rhwystro Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd rhag cyflawni'r dyletswyddau hyn. Byddai rhan (b) o'r cynnig uchod yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, gan ei alluogi i wneud penderfyniadau sy'n gweddu'n well i'r sefyllfa. Ein bwriad yw y bydd yr hyblygrwydd hwn, gan ddibynnu ar y penderfyniadau y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn eu gwneud, yn sicrhau bod aelodau paneli yn cael eu defnyddio mewn achosion lle mae gwir angen eu harbenigrwydd, a hynny mewn ffordd sy'n rhoi sylw i sut y bydd tribiwnlysoedd yn gallu ymwneud â defnyddwyr yn y dyfodol.
44. Bydd y cynigion yn parhau i roi'r rhyddid i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd bennu cyfansoddiad paneli naill ai fesul achos neu ar sail y math o achos dan sylw. Fodd bynnag, ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn newid yr amgylchiadau hynny lle bydd angen arbenigedd i benderfynu ar achos yn gyfiawn ac yn deg – er enghraifft, mewn achosion sy'n ymwneud â materion iechyd penodol. Bydd y darpariaethau yn caniatáu i aelodau anghyfreithiol barhau i rannu eu harbenigedd mewn achosion o'r fath.
45. Fel yn system y llysoedd, byddai'r Arglwydd Ganghellor yn goruchwylio'r broses hon, ond mae cyfansoddiad paneli yn benderfyniad cwbl farnwrol, a bydd yn parhau felly. Fodd bynnag, bydd cael gwared ar y gofyniad i ystyried cyfansoddiad paneli tribiwnlysoedd yn y gorffennol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r farnwriaeth wrth wneud y penderfyniadau hyn. Nid yw'r Gorchymyn Cyfansoddiad sy'n dirprwyo'r awdurdod i benderfynu ar gyfansoddiad paneli o'r Arglwydd Ganghellor i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn rhoi sylw i un tribiwnlys unigol nac i un math o achos mewn tribiwnlys. Yn hytrach, mae'n pennu'r gofynion a'r ystyriaethau cyffredinol a rhaid i'r rhain allu bod yn berthnasol i bob tribiwnlys a phob achos a fydd yn rhan o'r system unedig.
46. Gan edrych i'r dyfodol, bydd prosesau ar-lein yn galluogi defnyddwyr a'r tribiwnlys i ymwneud â'i gilydd yn gynt, a gellir casglu gwybodaeth sy'n hanfodol i'r achos yn gynharach yn y broses. Mewn system dribiwnlysoedd a fydd yn fwy dibynnol ar brosesau digidol, yn hytrach na rhai corfforol, credwn y bydd angen edrych o'r newydd ar sut y penderfynir ar gyfansoddiad paneli, ac ar y modd y caiff arbenigedd ei roi yn yr achosion lle mae angen hynny, er mwyn sicrhau bod y dulliau hynny'n parhau'n addas yn yr oes ddigidol. Dyma'r cyd-destun wrth i'r ymgynghoriad geisio gwybodaeth am y ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar gyfansoddiad tribiwnlysoedd.
47. Dim ond mewn achosion lle mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi penderfynu nad oes angen rhagor o aelodau y byddai paneli un aelod yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion hyn, rydym yn rhagweld y byddai Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn cymryd camau diogelu i sicrhau bod y barnwr yn y tribiwnlys yn

gallu gofyn am ragor o arbenigedd ar unrhyw adeg yn ystod yr apêl, os byddant yn credu bod hynny'n briodol.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd allu pennu cyfansoddiad panel yn seiliedig ar anghenion newidiol y bobl sy'n defnyddio system y tribiwnlysoedd?

48. Cawsom gyfanswm o 576 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 26% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor yn y cynnig, ac roedd 55% o'r ymatebwyr yn anghytuno.
49. Heriodd nifer o'r ymatebwyr yr awgrym bod anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd wedi newid ers uno'r tribiwnlysoedd yn 2008, gan ddatgan mai'r un yw angen defnyddwyr am gyfiawnder a phenderfyniadau cyfiawn a theg fel erioed, ac yn aml bod modd sicrhau hyn orau drwy banel ac arno dri aelod.

Ein hymateb ni:

- a. Cytunwn bod angen i dribiwnlysoedd fod yn deg ac yn hygyrch i ddefnyddwyr, ond yn y degawd diwethaf bu newid anferth yn y modd y mae pobl yn cael gwybodaeth, yn cyfathrebu â'i gilydd, ac yn defnyddio gwasanaethau'r llywodraeth. Bydd ein cynigion uchelgeisiol ar gyfer diwygio yn galluogi'r llysoedd a thribiwnlysoedd i ateb disgwyliadau newidiol eu defnyddwyr, a hynny drwy gyflwyno gwasanaethau digidol arloesol, gwella hygyrchedd, gwneud prosesau'n haws i'w deall, ac arbed amser.
- b. Mewn system dribiwnlysoedd a fydd yn fwyfwy dibynnol ar brosesau digidol, modern yn hytrach na rhai corfforol, credwn y bydd angen edrych o'r newydd ar sut y penderfynir ar gyfansoddiad paneli, ac ar y modd y caiff arbenigedd ei roi yn yr achosion lle mae angen hynny, er mwyn sicrhau bod y dulliau hynny'n parhau'n addas yn yr oes ddigidol. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau presennol yn cyfyngu ar y graddau y gall Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wneud hyn, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Uwch Lywydd ystyried cyfansoddiad paneli tribiwnlysoedd cyn eu trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd unedig.
- c. Y farnwriaeth sy'n penderfynu ar gyfansoddiad paneli a bydd y sefyllfa hon yn parhau – ond rydym am roi mwy o hyblygrwydd i'r farnwriaeth wrth iddi wneud y penderfyniadau hyn. Ni fydd dim yn y diwygiadau hyn yn newid yr amgylchiadau lle mae gofyn am arbenigedd, ond bydd yr hyblygrwydd ychwanegol yn galluogi Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ystyried a ellid rhoi'r arbenigedd hwn mewn ffyrdd mwy arloesol neu gymesur yn unol ag anghenion penodol yr unigolion dan sylw a'r materion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys benderfynu arnynt.
50. Holodd nifer o ymatebwyr hefyd sut y byddai Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn mynd ati'n ymarferol i benderfynu ar gyfansoddiad paneli. Er i rai ddweud y byddai cyflwyno un drefn arferol ar gyfer cyfansoddiad paneli, a hynny ar gyfer gwahanol fathau o wrandawiadau, yn amhriodol ac ystyried sut y mae pob achos yn amrywio, teimlai eraill na fyddai'n effeithlon i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wneud penderfyniad fesul achos. Cyfeiriodd nifer at yr anawsterau wrth ragweld a fydd angen arbenigedd ai peidio, ac ystyried pa mor aml y mae tystiolaeth nad yw wedi'i chynnwys yn y papurau yn dod i'r amlwg yn ystod gwrandawriad.
- a. Bydd y cynigion hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd benderfynu ar gyfansoddiad paneli fel y gwêl yn dda er mwyn sicrhau mai dyna'r

- ffordd orau o'u trefnu. Gallai hyn gynnwys gwneud darpariaeth ar gyfer pob math o achos penodol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, neu fesul achos.
- b. Yn unol â phenderfyniad Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, credwn y gallai penderfynu ar gyfansoddiad paneli fesul achos arwain at broses fwy cymesur o wneud penderfyniadau nag ar hyn o bryd, gan y byddai'n sicrhau mai dim ond mewn achosion lle mae galw penodol amdanynt y bydd aelodau panel yn cael eu defnyddio.
 - c. Mae rhai awdurdodaethau o fewn y system dribiwnlysoedd unedig – er enghraifft, nifer o achosion a glywir yn y Siambr Mewnfudo a Lloches – yn defnyddio panel un aelod yn rheolaidd ond yn gallu dewis cynnwys aelodau arbenigol eraill pan fydd galw. O'r herwydd, pan fydd hynny'n briodol, nid ydym yn cytuno y byddai proses o ddewis aelodau panel fesul achos o anghenraid yn rhy anodd neu aneffeithlon.
 - d. Rhan bwysig o'r rhaglen ddiwygio ehangach yw gwella ac annog trafodaethau rhwng defnyddwyr a'r tribiwnlys am yr anghydfod. Ar hyn o bryd, y gwrandawriad yn aml yw'r tro cyntaf y bydd defnyddiwr tribiwnlys wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r tribiwnlys, a dyma pa bryd y bydd nifer o fanylion yr achos – ffactorau a all fod yn sail i'r penderfyniad – yn dod i'r amlwg. Pan fydd achosion yn cael eu cyflwyno ar-lein, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd modd i farnwyr ymwneud â'r apelydd neu ei gynrychiolydd yn uniongyrchol ac yn llawer cynt, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth ganddynt i benderfynu ar yr achos. Mewn rhai achosion syml neu achosion lle nad oes gwrthwynebiad, mae'n bosibl y gellid gwneud y penderfyniad heb gynnal gwrandawriad corfforol. Yn yr achosion hynny lle bydd angen gwrandawriad, gallai'r cysylltiad cynnar ar-lein olygu bod gan y barnwr eisoes y wybodaeth i benderfynu pa arbenigedd y gall fod ei angen ar banel y tribiwnlys. Os bydd barnwr yn sylweddoli yn ystod gwrandawriad bod angen aelod arall ar y panel, nid oes unrhyw reswm pam na allant, ar yr adeg honno, ofyn i arbenigwr gyfrannu. Er bod risg y gallai hyn arwain at ohirio mwy o achosion pan ddaw'r wybodaeth hon yn amlwg yn hwyr yn y broses, credwn y bydd y rheolaeth well dros achosion a'r mwy o ymwneud rhwng y partïon yn gwneud iawn am hynny.
 - e. Yn y cyd-destun hwn, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fydd i benderfynu ar y ffordd orau o wneud unrhyw benderfyniadau fesul achos. Er bod Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am bennu cyfansoddiad a phenderfynu ar y ffactorau y dylid eu hystyried, ac ystyried y diwygiadau ehangach sy'n cael eu gwneud o dan y rhaglen i weddnewid y system, credwn y gellid gwneud penderfyniadau fesul achos yn effeithlon ac mewn ffordd sy'n rhoi sylw i anghenion y defnyddiwr a'r materion sy'n cael eu codi mewn achos. Dylem bwysleisio, fodd bynnag, y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn dal i benderfynu ar gyfansoddiad paneli, ac er ein bod yn credu bod manteision posibl o wneud y penderfyniadau hynny fesul achos, nid yw'n rheidrydd ar yr Uwch Lywydd i wneud hynny.
51. Roedd gan fwyafrif yr ymatebwyr bryderon na fyddai paneli un aelod yn briodol mewn awdurdodaethau penodol. Yr awdurdodaethau a oedd yn peri pryder bron yn ddieithriad oedd yr achosion a glywir yn y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chymorth i Blant, y Tribiwnlys Iechyd Meddwl, a Siambr Iawndal y Lluoedd Arfog. Roedd y Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn peri pryder penodol i nifer o ymatebwyr, ac ystyried bod gofyn i'r panel yn aml benderfynu ar ryddid claf, a chan fod risg gwirioneddol i ddiogelwch neu les yr unigolyn a'r cyhoedd.
52. Dywedodd nifer o ymatebwyr bod aelodau anghyfreithiol yn aml yn cyfrannu at yr achosion hyn, ac i'w gweld yn cynrychioli'r defnyddiwr. Enghraifft o hyn fyddai aelod panel sydd wedi cymhwyso ym maes anabled, neu aelod o'r lluoedd arfog. Gall y

rhain helpu'r panel i ddeall y math o broblemau y gall y defnyddiwr fod yn eu hwynebu. Mae sawl un o'r farn y gall yr aelodau hyn fod o fudd penodol mewn achosion lle nad yw'r defnyddiwr wedi'i gynrychioli, gan y gall eu cwestiynau helpu defnyddwyr i roi tystiolaeth os ydynt yn agored i niwed neu'n ei chael yn anodd mynegi'u hunain, ac yn ei chael yn anodd cyflwyno'u hachos yn sgil hynny. Pwysleisiodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig bod tribiwnlysoedd yn parhau'n ymholgar eu natur, yn hytrach nag yn wrthwynebus, ac awgrymwyd y gallai hepgor aelodau lleyg wanhau'r gwahaniaeth pwysig hwn rhwng tribiwnlysoedd a'r llysoedd.

53. Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu bod angen arbenigedd meddygol yn aml yn y mathau hyn o achosion, ac na fyddai'n briodol yn y fath achosion i ragdybio y dylid defnyddio panel un aelod. Er enghraifft, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i graffu'n annibynnol ar dystiolaeth a roddir gan y clinigydd cyfrifol neu gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, ac ni fyddai modd i'r aelod cyfreithiol wneud hynny ar ei ben ei hun. Roedd nifer o'r ymatebion gan farnwyr y tribiwnlysoedd yn cefnogi hyn.
54. Yn fwy cyffredinol, dywedodd rhai o'r ymatebwyr mai panel tri aelod yw'r ffordd orau o wneud penderfyniad cytbwys, a hwnnw wedi'i seilio ar wybodaeth dda. Heb yr aelodau anghyfreithiol, honnwyd bod defnyddwyr yn llai tebygol o fod â ffydd yng nghanlyniad eu gwrandawriad ac o bosibl am deimlo nad yw eu hachos wedi cael ei ystyried yn deg.
 - a. Cytunwn fod aelodau anghyfreithiol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses o wneud penderfyniadau yn y tribiwnlysoedd, gan sicrhau bod gan y panel wybodaeth gadarn a bod y penderfyniad a wneir yn un cywir. Maent hefyd yn rhoi safbwynt gwahanol, nad yw'n gyfreithiol ei natur. Fel y dywedwyd yn yr ymgynghoriad, ni fyddai'r cynigion hyn yn rhwystro tribiwnlysoedd rhag defnyddio aelodau anghyfreithiol mewn achosion lle mae galw am eu harbenigedd.
 - b. O dan y fframwaith cyfreithiol presennol, yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am gyfansoddiad paneli ond mae'r pŵer hwn wedi'i ddirprwyo i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. O ganlyniad, nid y Llywodraeth sydd i benderfynu ar gyfansoddiad paneli ar gyfer mathau penodol o achosion. Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd sy'n penderfynu ar gyfansoddiad paneli, gan wneud hyn ym mha bynnag ffordd y gwêl yn dda, a bydd y sefyllfa hon yn parhau.
 - c. Nid ydym yn credu y byddai'r galw am arbenigedd penodol yn y tribiwnlysoedd o dan awdurdodaethau penodol yn rhwystro Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd rhag seilio'i benderfyniadau ynghylch cyfansoddiad paneli ar anghenion newidiol defnyddwyr, yn ogystal â'r rhaglen ehangach i weddnewid y system maes o law. Mae gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddyletswydd gyfreithiol i ystyried a oes angen i aelodau paneli fod yn arbenigwyr ar y gyfraith neu'r pwnc dan sylw ac i sicrhau bod y gwrandawriad yn un teg ac effeithlon. Ni fyddai cynigion y Llywodraeth yn newid y gofynion hyn, ac felly pan fydd anghydfod wedi'i seilio ar ffactorau lle mae galw am arbenigedd, byddwn yn disgwyl i aelodau anghyfreithiol barhau i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir ynghylch y ffactorau hynny.
 - d. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y cynnig i gyflwyno paneli un aelod fel mater o drefn ar draws y system tribiwnlysoedd unedig wedi arwain at ragdybiaeth y bydd hyn yn digwydd ym mhob achos. Nod y polisi yw annog dull sy'n gweddu mwy i'r sefyllfa wrth benderfynu ar gyfansoddiad paneli, er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd eu hangen y mae aelodau panel yn cael eu defnyddio. Nid yw'n fwriad cael paneli un aelod ym mhob achos nac ym mhob awdurdodaeth, ac rydym am bwysleisio mai'r bwriad yn bendant yw y bydd modd i aelodau anghyfreithiol barhau i gyfrannu a rhannu eu harbenigedd mewn achosion lle bydd Uwch Lywydd

y Tribiwnlysoedd yn credu bod angen hynny. Ni fyddwn, felly, yn cyflwyno un drefn arferol ar gyfer cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd unedig.

- e. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion ac yn nodi'r pryderon a fynegwyd a phwysigrwydd cael arbenigedd ar baneli tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, nid yw ein cynnig i gael gwared ar y gofyniad presennol sydd ar Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ystyried trefniadau paneli yn y gorffennol yn rhwystro tribiwnlysoedd rhag defnyddio aelodau i roi arbenigedd. Rydym felly yn bwriadu bwrw yn ein blaenau i gael gwared ar y gofyniad hwn o'r Gorchymyn Cyfansoddiad.

Cwestiwn 8: Er mwyn cynorthwyo Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i sicrhau bod yr arbenigedd priodol yn cael ei ddarparu yn dilyn y diwygiad arfaethedig, pa ffactorau ydych chi'n meddwl ddylid eu hystyried er mwyn penderfynu a oes angen arbenigwr lluosog i wrando ar achosion unigol?

55. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld aelodau paneli yn parhau i gael eu defnyddio mewn unrhyw achos lle mae galw ar hyn o bryd am arbenigedd anghyfreithiol. Yn bennaf, yr awdurdodaethau a oedd yn peri pryder i'r ymatebwyr yn hyn o beth oedd y Tribiwnlys Iechyd Meddwl, y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chymorth i Blant, a'r Tribiwnlys Pensiynau Rhyfel ac Iawndal y Lluoedd Arfog.
56. Mae'n ymddangos bod nifer o'r ymatebion a gafwyd wedi'u dylanwadu'n gryf gan y cynnig i gyflwyno paneli un aelod fel mater o drefn ar gyfer achosion lle bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn credu nad oes angen arbenigedd annibynnol er mwyn penderfynu ar achos. Gan mwyaf, nid yw'r ymatebwyr wedi ystyried effaith y newidiadau ehangach a fydd yn cael eu gwneud i'r tribiwnlysoedd unedig, a'r newidiadau posibl i'r modd y gall defnyddwyr ymwneud â'r tribiwnlysoedd ar ôl i'r rhaglen i weddnewid y system gael ei rhoi ar waith. Rhoddwyd sylw i hyn ym mharagraff 46. Nid yw'n fwriad defnyddio paneli un aelod ym mhob achos neu ym mhob awdurdodaeth. Er mwyn ei gwneud yn glir y bydd aelodau anghyfreithiol yn parhau i gyfrannu pan fydd galw am eu harbenigedd, byddwn yn esbonio'n glir yn y Gorchymyn y gall Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddarparu y dylai panel gynnwys un, dau neu dri aelod, yn ôl y galw, er mwyn penderfynu ar y materion sydd gerbron y tribiwnlys mewn ffordd gyfiawn a theg.
57. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ffactorau penodol y maent yn credu y dylai Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd roi sylw iddynt wrth benderfynu ar gyfansoddiad paneli. Roedd y ffactorau hyn yn amrywio'n helaeth o un awdurdodaeth i'r llall, ac yn cynnwys nifer o ystyriaethau ymarferol, cymdeithasol, meddygol a chyfreithiol. Roedd y ffactorau'n cynnwys a yw achos yn cael ei herio, a yw anabledd neu iechyd meddwl yn ffactor, a yw'r defnyddiwr wedi'i gynrychioli, a fyddai angen cymorth ar y defnyddiwr i roi tystiolaeth, cymhlethdod neu ddifrifoldeb yr achos, ac a yw arbenigedd aelod y panel yn benodol berthnasol i'r achos.

Ein hymateb ni:

- a. Rydym wedi ystyried awgrymiadau'r ymatebwyr yn ofalus, ac mewn sawl achos yn cytuno y byddai'r rhain yn ffactorau synhwyrol i roi sylw iddynt. Er bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn pennu mai'r Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am gyfansoddiad paneli, mae'r pŵer hwn wedi'i ddirprwyo i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Gwaith yr Uwch Lywydd felly yw ystyried a ddylai wneud unrhyw

benderfyniadau fesul achos ac a oes angen newid cyfansoddiad paneli yng nghydestun y system dribiwnlysoedd ddiwygiedig.

- b. Bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn cael gwybod am y materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac am y sylwadau ynghylch y ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar gyfansoddiad paneli, fel y gall eu hystyried yn llawn cyn cyflwyno unrhyw drefniadau newydd.
- c. Yn y gorffennol, mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wastad wedi ymgynghori â barnwriaeth y tribiwnlysoedd ac â rhanddeiliaid ehangach cyn gwneud unrhyw newidiadau i gyfansoddiad paneli, a disgwylw'n y bydd y sefyllfa hon yn parhau ar ôl newid y Gorchymyn Cyfansoddiad mewn unrhyw fodd. Bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn parhau'n gyfrifol am gyfansoddiad paneli, ac yn sgil yr hyblygrwydd ychwanegol y bydd y cynigion hyn yn ei roi, rydym yn hyderus y bydd yr Uwch Lywydd yn parhau i sicrhau bod yr arbenigedd priodol ar gael ar ôl y broses ddiwygio, ond mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gweddu i anghenion y defnyddiwr ac i'r achos dan sylw.

Effeithiau ac effeithiau ar gydraddoldeb

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau yn gywir, fel y'u nodir yn yr Asesiadau o Effaith ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

58. Canolbwyntiodd nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ar effeithiau rhagor o ddigideiddio. Teimlai rhai ymatebwyr ein bod wedi goramcangyfrif nifer y defnyddwyr a fydd yn gallu defnyddio gwasanaethau digidol â chymorth, gan fod y gyfran o ddefnyddwyr y llysoedd sydd wedi'u 'hallgau'n ddigidol' yn debygol o fod yn uwch na defnyddwyr gwasanaethau'r llywodraeth yn gyffredinol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at y ffaith mai cyfyngedig yw'r data sydd ar gael am gostau'r gwasanaethau digidol â chymorth, gan mai megis dechrau eu datblygu yr ydym.
59. Roedd yr ymatebwyr a gytunai ein bod wedi amlinellu'r effeithiau cywir yn dweud y bydd gwasanaethau digidol â chymorth yn rhoi'r cymorth y mae ei angen ar bobl i ddilyn gweithdrefnau newydd, ar-lein, ac y bydd gan ddefnyddwyr wastad amrywiaeth o opsiynau wrth ddewis sut i ymwneud â GLITEM.
60. Credai rhai ymatebwyr nad oedd ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i un o effeithiau'r strategaeth ddigidol â chymorth, sef yr effaith ar ddarparwyr trydydd parti a'u gallu i ymdopi â'r galw ychwanegol am gymorth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle nad yw'r cysylltiad rhyngwyd a signal ffonau symudol yn dda.

Ein hymateb ni:

- a. Fel y nodir uchod, bwriadwn gaffael cymorth wyneb yn wyneb gan amrywiaeth o gyflenwyr ar ôl asesu eu bod yn addas i roi'r math hwn o gymorth. Bydd hyn yn cynnwys cael sicrwydd bod gan y sefydliad y capasiti i helpu nifer ddisgwylledig y defnyddwyr digidol y mae angen cymorth arnynt. Bydd GLITEM yn defnyddio'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli am ardaloedd sydd wedi'u hallgau'n ddigidol er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael mewn ardaloedd lle mae galw mawr amdano, ac efallai y bydd yn caffael nifer o ddarparwyr er mwyn ateb y galw hwnnw. Byddwn yn cyfeirio defnyddwyr at y cymorth wyneb yn wyneb y mae GLITEM yn ei ariannu, a bydd hwn ar gael am ddim i ddefnyddwyr y mae angen y cymorth hwnnw arnynt.

61. O ran cyfansoddiad paneli, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ddiffyg ystyriaeth fanwl i'r effaith y byddai paneli un aelod yn ei chael ar bob awdurdodaeth o fewn y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf. Roedd yr asesiad o'r effaith yn rhoi tystiolaeth am yr effaith ar awdurdodaethau sydd wedi lleihau nifer yr aelodau ar eu paneli yn y gorffennol, ond nid oedd rhai ymatebwyr yn credu mai'r un fyddai'r canlyniad mewn awdurdodaethau eraill.
- Credwn fod data ynghylch newid cyfansoddiad paneli yn y gorffennol yn dystiolaeth dda wrth ragweld sut y bydd hynny'n effeithio ar awdurdodaethau eraill. Rydym, wrth gwrs, yn cydnabod y gwahaniaethau yn natur pob tribiwnlys a'r materion y maent yn delio â hwy, a bydd hyn yn cael sylw wrth ystyried cyfansoddiad y paneli.
 - Rydym yn cydnabod nad ydym wedi asesu effaith paneli un aelod ar bob awdurdodaeth unigol. Mae hyn gan y bydd yr effeithiau penodol yn dibynnu ar benderfyniadau Uwch Lywydd y Tribiwnlys wrth newid cyfansoddiad paneli, a sut y gwneir hynny. Nid oeddem yn disgwyl o gwbl i hyn arwain at ddefnyddio paneli un aelod ym mhob awdurdodaeth. Nod y bwriad i gyflwyno paneli un aelod fel mater o drefn oedd annog dull mwy cymesur sy'n gweddu i'r sefyllfa wrth benderfynu ar gyfansoddiad paneli. Fodd bynnag, er mwyn ei gwneud yn glir y bydd aelodau anghyfreithiol yn parhau i rannu eu harbenigedd lle mae galw am hynny, nid ydym bellach yn bwriadu cyflwyno un drefn arferol ar gyfer cyfansoddiad paneli. Yn hytrach, byddwn yn esbonio'n glir y dylai panel gynnwys un, dau neu dri aelod, yn ôl y galw, er mwyn penderfynu ar y materion sydd gerbron y tribiwnlys mewn ffordd gyfiawn a theg.
 - Ac ystyried yr ystyriaethau statudol y mae'n rhaid i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd roi sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau, rydym yn hyderus y bydd yr Uwch Lywydd yn ystyried yn ofalus effeithiau cyfansoddiad y panel ym mhob awdurdodaeth, yn ogystal ag ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, cyn gwneud unrhyw newidiadau. Y bwriad yw y bydd cyfansoddiad paneli yn cael ei bennu gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd naill ai fesul achos neu ar sail y math o achos dan sylw. Yn unol â system y llysoedd, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn goruchwyllo'r broses hon, gan allu ystyried unrhyw effeithiau ar awdurdodaethau penodol bryd hynny.
62. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno y gallai lleihau nifer yr aelodau ar banel tribiwnlys leihau'r amser y mae'n ei gymryd i restru achosion, ond yn anghytuno â'r rhagdybiaeth y byddai cael llai o aelodau ar y panel o anghenraid yn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd nifer yn credu y gallai'r diffyg arbenigedd arwain at ohirio rhagor o achosion neu at apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys, ac felly at ragor o gostau. Dywedodd eraill y gallai fod effaith ar gyfradd yr achosion sy'n llwyddo yn sgil cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu penderfynu ar bapur.
- Roedd nifer o'r pryderon hyn wedi'u seilio ar y dybiaeth y byddai angen i farnwr sy'n eistedd ar ei ben ei hun ohirio achosion yn aml er mwyn ceisio rhagor o arbenigedd. Bydd y system dribiwnlysoedd ddiwygiedig yn dibynnu mwy ar ymwneud â phobl yn gynnar ac ar gasglu unrhyw wybodaeth cyn y gwrandawriad ffurfiol. Mewn nifer o achosion, credwn y bydd y broses gyfathrebu gynnar hon yn fodd o ganfod pa arbenigedd y mae'n debygol o fod ei angen ar y tribiwnlys cyn gwrandaw'r achos, gan leihau'r risg y bydd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion sy'n cael eu gohirio. Bydd yr arbenigedd hwnnw yn dal i fod ar gael ac yn cael ei roi pan fydd galw. O'r herwydd nid ydym yn rhagweld, fel y mae rhai ymatebwyr wedi'i awgrymu, y bydd y polisi hwn yn arwain at sefyllfaoedd lle bydd yn rhaid i banel un aelod ddeall gwybodaeth sydd y tu hwnt i arbenigedd yr aelod hwnnw

heb allu gwneud cais am arbenigwr. O ganlyniad, nid ydym yn gweld fod unrhyw reswm pam y dylai penderfyniad gymryd mwy o amser i'w wneud, nac yn credu y bydd cynnydd yn nifer yr apeliadau a wneir i'r Uwch Dribiwnlys neu i'r llysoedd uwch.

- b. Ar fater tebyg iawn, dywedodd rhai ymatebwyr bod pobl yn fwy tebygol o apelio'n llwyddiannus mewn gwrandawriad llafar na thrwy apeliadau a benderfynir ar bapur, ac y gallai digideiddio'r system felly arwain at lai o achosion llwyddiannus. Fodd bynnag, edrychodd ymchwil a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield² ar y rhesymau dros y gwahaniaeth hwn, gan ganfod bod y gwahaniaeth yng nghyfradd yr achosion sy'n llwyddo yn bennaf yn sgil faint o wybodaeth sydd ar gael i'r panel, yn hytrach na ffurf y gwrandawriad. Gan mai nod y diwygiadau ehangach yw galluogi'r tribiwnlys a'i ddefnyddwyr i ymwneud â'i gilydd yn gynt, ynghyd â gwella gallu'r tribiwnlysoedd i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn gynnar yn y broses, nid ydym yn credu y bydd gwahaniaeth rhwng canlyniadau achosion a benderfynir drwy wrandawriad llafar a'r rheini a benderfynir heb wrandawriad o'r fath.
- c. Fel y nodwyd yn yr asesiad o'r effaith, roedd y dystiolaeth o achosion yn y Siambr Mewnfudo a Lloches, a'r rheini'n ymwneud ag allgludo, yn dangos nad oedd nifer yr apeliadau i'r Haen Uwch wedi cynyddu yn sgil newid cyfansoddiad y paneli. Bydd GLITEM yn parhau i fonitro'r tueddiadau hyn.

63. Dywedodd ymatebwyr hefyd nad yw'r asesiad o'r effaith yn rhoi sylw i brofiad defnyddwyr na'r gallu i gael cyfiawnder. Cafwyd sylwadau y gallai paneli un aelod olygu bod tribiwnlysoedd weithiau'n wrthwynebus eu natur yn hytrach nag yn ymholgar; na fyddai defnyddwyr yn teimlo bod y tribiwnlys wedi dod i farn gytbwys; ac na fyddai defnyddwyr yn teimlo'u bod wedi cael digon o gefnogaeth. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai newid cyfansoddiad paneli arwain at ragor o gostau i gyrff cyhoeddus eraill gan fod defnyddwyr yn fwy tebygol o deimlo bod angen defnyddio arbenigwyr annibynnol, ac y bydd hynny'n costio i'r cyhoedd.

- a. Mae paneli un aelod eisoes yn cael eu defnyddio mewn nifer o awdurdodaethau drwy'r system dribiwnlysoedd, ac nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi arwain at wrandawriadau o natur wrthwynebus nac at ddefnyddwyr yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi. Yn yr un modd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos y byddai hyn yn costio mwy i gyrff cyhoeddus eraill. Dim ond mewn lleiafrif o achosion y mae cyllid cyhoeddus ar gael, ac mewn achosion o'r fath, er enghraifft achosion iechyd meddwl, disgwylw'n y bydd arbenigedd yn dal i fod ar gael pan fydd galw amdano er mwyn datrys yr achos yn gyfiawn ac yn deg. Nid ydym felly yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill.
- b. Rydym yn cydnabod bod anghenion tribiwnlysoedd, a'r angen dilynol i aelodau anghyfreithiol gyfrannu, yn debygol o amrywio'n fawr o un awdurdodaeth i'r llall. Nid yw'r Gorchymyn Cyfansoddiad yn canolbwyntio ar unrhyw dribiwnlys unigol nac ar unrhyw fath unigol o achos mewn tribiwnlys. Yn hytrach, mae'n pennu'r gofynion a'r ystyriaethau cyffredinol a rhaid i'r rhain allu bod yn berthnasol i bob tribiwnlys a phob achos a fydd yn rhan o'r system unedig. Yn y cyd-destun hwn, ni fyddai'r diwygiadau arfaethedig yn newid yr amgylchiadau pan fyddai angen arbenigedd penodol, a byddai aelodau anghyfreithiol yn parhau i rannu'u harbenigedd pan fydd galw amdano. Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd sy'n gyfrifol am benderfynu ar gyfansoddiad tribiwnlysoedd, a bydd yn parhau i wneud hynny.

² http://www.nuffieldfoundation.org/sites/default/files/files/Tribunal_decision_making_vFINAL.pdf

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid iddo ystyried a oes angen i aelodau'r tribiwnlysoedd gael arbenigedd, sgiliau neu wybodaeth benodol. Rhaid i'r tribiwnlys hefyd fod yn hygyrch, a rhaid i'w drafodion fod yn deg. Rydym felly yn sicr y bydd anghenion defnyddwyr yn cael eu hystyried yn ofalus cyn gwneud unrhyw newidiadau penodol i gyfansoddiad paneli.

Cwestiwn 10: Beth ydych chi'n ystyried fydd yr effeithiau ar gydraddoldeb fydd yn deillio o'r holl opsiynau diwygio arfaethedig yn achos unigolion â nodweddion gwarchoddedig? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

64. Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau am effeithiau rhagor o ddigideiddio ar gydraddoldeb, gan ddadlau ei bod yn llawer anos i rai pobl ddefnyddio gwasanaethau digidol, gan gynnwys yr henoed neu bobl anabl, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl sydd â sgiliau llythrennedd isel neu anawsterau dysgu, neu bobl ar incwm isel. Efallai y bydd y grwpiau hyn yn ei chael yn anodd defnyddio cyfleusterau digidol â chymorth oni bai eu bod yn cael help wyneb yn wyneb, neu efallai na fyddant yn gallu fforddio cost galwadau ffôn. Bydd y rheini sy'n methu fforddio defnyddio technoleg hefyd o dan anfantais.
65. Er i rai ymatebwyr ddweud y gall defnyddwyr anabl elwa o gael euogfarn ar-lein awtomatig, gan na fyddai'n rhaid iddynt deithio i'r llys, roedd gan lawer bryderon am ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, ac a allai bledio'n euog heb ddeall yn llwyr y broses na'i goblygiadau. Cwestiynodd rhai ymatebwyr hefyd a fyddai defnyddwyr sydd heb sgiliau digidol yn cael gwasanaeth gwaeth o ganlyniad.
- a. Rydym wedi rhoi sylw i'r pwyntiau hyn wrth ymateb i Gwestiwn 11 isod.
66. O ran cyfansoddiad y paneli, roedd mwyafrif yr ymatebion yn cyfeirio at yr angen i ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a chanddynt gyflyrau neu anabledau corfforol neu feddyliol. Roedd llawer o'r gred y gallai defnyddwyr fod o dan anfantais wrth newid cyfansoddiad y paneli sy'n gwrandao ar apeladau nawdd cymdeithasol a phaneli'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl. Roedd nifer o bryderon tebyg y byddai lleihau aelodaeth y paneli yn arwain at golli arbenigedd meddygol ac ym maes anabledd ac iechyd meddwl, ac mae'r arbenigedd hwnnw'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y gwrandawiadau'n rhai teg ac wedi'u seilio ar wybodaeth dda. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai paneli un aelod yn arwain at ragfarn anymwybodol neu y byddai'n fwy anodd i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed gyflwyno'u hachos heb gymorth ychwanegol aelodau'r panel.

Ein hymateb ni:

- a. Rydym yn cydnabod y pryderon y mae rhanddeiliaid wedi'u mynegi ac yn cytuno bod angen sicrhau bod y tribiwnlysoedd yn hygyrch ac nad yw'r diwygiadau yn rhoi defnyddwyr o dan anfantais. Rydym yn awyddus i greu system gyfiawnder sy'n gweithio i bawb, ac mae hynny'n golygu creu system sy'n gyfiawn, yn gymesur ac yn hygyrch. Mae tribiwnlysoedd yn delio â rhai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod modd i bob defnyddiwr ddefnyddio'n gwasanaethau ac nad oes neb yn cael ei adael ar ei ôl. Mae'r systemau'n cael eu hailddylunio ar sail ymchwil â defnyddwyr er mwyn sicrhau y bydd modd i bob defnyddiwr ymwneud yn effeithiol â'r tribiwnlysoedd, boed yn ddigidol neu yn bersonol, ac i sicrhau bod cymorth addas ar gael i bobl pan fydd angen y cymorth hwnnw arnynt.

- b. Nid yw'r penderfyniadau wedi'u gwneud eto ynghylch cyfansoddiad paneli ym mhob tribiwnlys unigol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio nad yw'n credu y dylid nac y gellid defnyddio paneli un aelod ym mhob achos. Bydd yn rhaid ystyried anghenion pob defnyddiwr yn llawn, gan gynnwys y rheini sydd â chyflyrau corfforol neu feddyliol neu anabledau. Mae'n ofyniad statudol ar Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ystyried a oes angen i aelodau tribiwnlysoedd fod yn arbenigwyr ar y gyfraith neu'r pwnc dan sylw ac i sicrhau bod y gwrandawriad yn un teg ac effeithlon. Ni fydd hynny'n newid o dan y polisi hwn. Gallwn, felly, fod yn sicr y bydd arbenigedd yn dal i fod ar gael yn yr achosion lle mae galw amdano. Fel y nodir ym mharagraff 41, nid ydym bellach yn bwriadu cyflwyno un drefn arferol ar gyfer cyfansoddiad paneli, a byddwn yn ei gwneud yn glir y bydd aelodau anghyfreithiol yn parhau i gyfrannu a rhannu eu harbenigedd er mwyn penderfynu ar y materion sydd gerbron y tribiwnlysoedd mewn ffordd gyfiawn a theg.
- c. Byddai cael gwared ar y gofyniad sydd ar Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ystyried cyfansoddiad paneli'r tribiwnlysoedd yn y gorffennol yn ei alluogi i wneud pethau mewn ffordd fwy newydd, fel penderfynu ar gyfansoddiad paneli fesul achos, pan fydd hynny'n briodol. Credwn y bydd y dull hwn yn arwain yn naturiol at ystyried anghenion penodol y defnyddiwr, yn ogystal ag unrhyw gyfraniad arbenigol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad teg a hwnnw wedi'i seilio ar wybodaeth dda. Byddai hyn yn sicrhau bod cyfansoddiad paneli wastad yn briodol ac na fydd unrhyw ddefnyddwyr o dan anfantais yn sgil newid cyfansoddiad y panel. Fodd bynnag, Uwch Swyddog y Tribiwnlysoedd sydd i benderfynu a fydd yn gwneud hyn ai peidio.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir, fel y'u nodir yn yr Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cyfleusterau Digidol â chymorth

67. Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno ein bod wedi nodi'r effeithiau cywir ar gydraddoldeb, ond yn awgrymu ein bod wedi tanamcangyfrif i ba raddau y gallai defnyddwyr ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau ar-lein. Awgrymodd ymatebwyr na fyddai GLITEM yn gallu rhoi'r cymorth y bydd ei angen, ac y byddai hyn yn rhoi pobl sy'n anabl, yn hen neu ar incwm isel, ymhlith eraill, o dan anfantais ac yn effeithio ar eu gallu i gael cyfiawnder. Bydd angen i'r rheini sy'n dylunio'r gwasanaethau digidol â chymorth sicrhau eu bod yn ateb anghenion defnyddwyr gan ystyried ymhellach sut y mae pobl o wahanol ryw, oedran a chefnidir yn ymwneud â gwasanaethau digidol.

Ein hymateb ni:

- a. Mae sicrhau bod gan bob defnyddiwr fodd o gael cyfiawnder teg ac agored yn flaenoriaeth bwysig yn y gwaith o ddiwygio GLITEM, a bydd ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau digidol â chymorth yn help i gyflawni hyn. Byddwn yn cynorthwyo defnyddwyr yn ystod y broses drwy amrywiaeth o wasanaethau, a'r rheini oll yn cael eu datblygu gyda'r grwpiau hyn mewn golwg. Byddwn yn treialu, yn cynnal ymchwil ymhlith defnyddwyr ac yn profi ar draws y sbectrwm sgiliau digidol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn ateb anghenion ein defnyddwyr, ac yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed. Bydd yr ymchwil a'r gwaith profi hwn yn cynnwys grwpiau fel defnyddwyr hyn, defnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell, defnyddwyr sydd ag anabledau corfforol a gwybyddol, defnyddwyr y

mae Saesneg yn ail iaith iddynt a defnyddwyr sydd â lefel isel o sgiliau digidol neu ddim sgiliau digidol o gwbl. Ond ni fydd y gwaith yn gyfyngedig i'r grwpiau hynny.

- b. Mae GLITEM wrthi'n ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y farnwriaeth ac adrannau eraill y llywodraeth, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a hynny er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n cael sylw wrth inni ddylunio ein gwasanaethau digidol â chymorth. Cyn hir byddwn yn dechrau ceisio barn sefydliadau ac elusennau lles, a hynny drwy ein Grŵp Ymgysylltu ar Gydraddoldeb. Fforwm sydd newydd ei sefydlu yw hwn a fydd yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddylunio'r gwasanaethau.
- c. Mae'n bwysig nodi na fyddwn yn gorfodi defnyddwyr gwasanaethau GLITEM i ddefnyddio sianeli digidol. Os bydd defnyddwyr yn penderfynu ymwneud â'r gwasanaethau hynny'n ddigidol, bydd ganddynt ddewis ynghylch pa sianel ddigidol â chymorth i'w defnyddio er mwyn cael help. Bydd y sianeli hyn yn cynnwys y ffôn, sgwrsio dros y we a phapur pan fydd galw am hynny neu pan wneir cais am hynny, a bydd ein holl wasanaethau yn cyfeirio'n glir at yr opsiynau hyn

Euogfarnau ar-lein awtomatig a chosbau safonol statudol

68. Yn yr un modd, o ran effeithiau euogfarnau ar-lein awtomatig ar gydraddoldeb, dywedodd nifer a roddodd sylwadau bod angen ystyried yn llawn y rheini na fydd yn gallu ymwneud â'r broses hon, ac yn enwedig yr henoed neu bobl anabl. Mae angen sicrhau nad yw'r grwpiau hyn o dan anfantais yn sgil eu diffyg sgiliau digidol neu'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau digidol. Mae rhai ymatebwyr hefyd wedi awgrymu y gallai fod effaith negyddol ar y rheini nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
- a. Er mai cynllun ar-lein yn unig fydd hwn, byddwn yn sicrhau bod y darpariaethau digidol â chymorth yn galluogi unigolion o'r fath i ymwneud â'r system. Gallai hyn gynnwys defnyddio'r system gyda chynorthwydd mewn manau lle bydd cymorth wyneb yn wyneb ar gael.
 - b. Byddwn yn creu'r system mewn ffordd a fydd yn canfod, yn gynnar yn y broses, a oes angen gwasanaethau cyfieithu ar ddefnyddwyr ai peidio. Os hynny, bydd y system yn eu cyfeirio at y Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid er mwyn trefnu'r cyfleusterau hyn fel rhan o'n gwasanaethau digidol â chymorth.

Cyfansoddiad paneli

69. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn dangos bod yr effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd yn gywir ond bod rhai bylchau yn y gwaith dadansoddi. Mae mwyafrif yr ymatebion yn dweud nad yw'r effeithiau ar ddefnyddwyr, o ran cydraddoldeb, wedi'u hystyried yn ddigonol. Mae eraill yn cyfeirio at yr effeithiau ar amrywiaeth ymhlith y rheini sydd mewn swyddi barnwrol, gan ddweud y gellid edrych yn fanylach ar hyn gan ystyried y nodweddion ym mhob awdurdodaeth neu ymhlith pob math o aelod.
- a. Bydd y cynigion hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wrth benderfynu ar gyfansoddiad paneli, ond nid ydym yn gwybod eto sut y bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud. Er bod yr Aseiad o'r Effaith a'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhagdybio y bydd llai o aelodau panel yn cael eu defnyddio, ni allwn ragweld yn union ym mha awdurdodaethau y bydd hyn yn digwydd nac ar aelodau pa baneli y bydd yn effeithio. Ar hyn o bryd, mae felly'n anodd asesu'r effaith ar gydraddoldeb ymhlith pob math unigol o aelod panel neu ym mhob awdurdodaeth, ond fe ellir gwneud hyn pan fydd Uwch Swyddog y Tribiwnlysoedd yn penderfynu ar gyfansoddiad y paneli.

- b. Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith tan y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi cael amser i ystyried yn llawn a phenderfynu ar yr achosion hynny a'r sefyllfaoedd hynny lle bydd galw am fwy nag un aelod ar banel. Mae gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd eisoes awdurdod i benderfynu ar gyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd unedig. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, er nad oes gofyniad cyfreithiol arno i wneud hynny, mae'r Uwch Lywydd yn ymarferol bob tro'n ymgynghori â barnwriaeth y tribiwnlys ac â rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cyfansoddiad y paneli yn briodol ac yn fodd o sicrhau cyfiawnder. Nid ydym yn disgwyl i hyn newid.
- c. Bydd y cynigion yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i oruchwyllo cyfansoddiad paneli i ryw raddau, ac yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, bydd gofyn iddi ystyried effeithiau unrhyw gynigion y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn ei wneud ar gydraddoldeb. Byddwn yn diweddarau ac yn creu fersiwn newydd o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb unwaith y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi penderfynu ar unrhyw newidiadau i gyfansoddiad paneli mewn gwahanol awdurdodaethau. Bydd hyn ar ôl dadansoddi'r newidiadau hynny ymhellach ynghyd â chael adborth gan rhanddeiliaid i unrhyw ymgynghoriad y bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn ei gynnal.

Y casgliad a'r camau nesaf

Gwasanaethau digidol â chymorth

70. Rydym wedi ystyried yn llawn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddwn yn defnyddio'r rhain yn sail wrth ddatblygu ein gwasanaethau digidol â chymorth. Pan fydd gwasanaethau GLITEM wedi symud ar-lein, byddwn yn sicrhau bod cymorth ar gael i bobl sy'n ei chael yn anodd defnyddio technoleg, er mwyn i ddefnyddwyr allu ymwneud â GLITEM mewn ffordd ystyrllon ac effeithiol. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau digidol â chymorth yn rhoi sylw i anghenion yr henoed neu bobl sydd ag anableddau, pobl sydd â sgiliau llythrennedd neu sgiliau Saesneg gwael, a'r rheini sy'n methu defnyddio technoleg oherwydd y gost neu resymau daearyddol. Byddwn yn parhau i dreialu'n helaeth, yn ymchwilio â defnyddwyr ac yn profi'r gwasanaethau gyda'r grwpiau hyn a nifer o bobl eraill, ac yn parhau i wella ein darpariaeth yn raddol.
71. Byddwn yn gweithio â darparwyr trydydd parti er mwyn creu rhwydwaith cenedlaethol i roi cymorth hygyrch, gan gymryd camau i sicrhau ansawdd y cymorth hwnnw. Bydd gwasanaethau dros y ffôn a sgwrsio ar y we hefyd ar gael, a bydd y rhain wedi'u cyfeirio'n glir i'r rheini sy'n gallu defnyddio TG ond angen mwy o gymorth, a bydd sianeli papur yn dal i fod ar gael pan fydd galw.
72. Yn ogystal â rhoi cymorth digidol, bydd GLITEM yn sicrhau bod ei wasanaethau ar-lein yn hawdd i bobl eu deall a'u defnyddio. Mae GLITEM yn ymchwilio i ganfod pwy yw defnyddwyr disgwylidig pob gwasanaeth, er mwyn canfod eu hanghenion, a bydd yn profi pob gwasanaeth â'r grwpiau hyn. Bydd y canlyniadau o'r gwaith ymchwil a phrofi yn cael eu defnyddio wrth ddylunio'r gwasanaethau, gan wneud y gwasanaethau hynny'n fwy hygyrch. O ganlyniad, bydd ein gwasanaethau yn fwy cyfleus, yn gynt i'w defnyddio ac yn gweddu i anghenion ein defnyddwyr. Bydd dylunio gwasanaethau mewn ffordd gynhwysol, gan ymgorffori anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, o fudd i holl ddefnyddwyr gwasanaethau GLITEM.

Euogfarn ar-lein awtomatig a chosbau safonol statudol

73. Rydym yn falch bod mwyafrif yr ymatebwyr yn yr adran hon yn cefnogi'r egwyddor y dylai opsiwn fod ar gael i roi cosb safonol statudol i'r rheini sy'n pledio'n euog ar-lein, ac ar ôl ystyried yr ymatebion rydym wedi penderfynu bwrw yn ein blaenau â'n cynigion. Fel y dywedodd nifer o ymatebwyr, bydd hyn yn symleiddio'r broses mewn achosion penodol, syml, gan ryddhau amser ynadon i ganolbwyntio ar feysydd lle mae mwy o flaenoriaeth.
74. Fel y nodwyd uchod, bydd y weithdrefn ar-lein yn gwbl wirfoddol: gall diffynyddion ddewis delio â'u hachos mewn gwrandawriad llys neu drwy'r Weithdrefn Un Ynad. Bydd modd i ddiffynyddion gyflwyno amgylchiadau lliniarol neu roi gwybodaeth am eu modd, boed fel rhan o'r Weithdrefn Un Ynad neu yn y llys.
75. Bydd y system yn cael ei dylunio i ddiogelu defnyddwyr sy'n agored i niwed drwy ddatgan mewn Saesneg plaen yr holl dystiolaeth sy'n eu herbyn a goblygiadau posibl cael euogfarn droseddol; bydd defnyddwyr yn cael cyngor i geisio cymorth gan Cyngor ar Bopeth neu ddarparwr gwasanaethau cyfreithiol cyn bwrw yn eu blaenau, a byddant hefyd yn cael eu cyfeirio at Ganolfannau Gwasanaethau i Gwsmeriaid GLITEM, a fydd

yn gallu rhoi cymorth digidol yn ogystal ag ateb cwestiynau am wahanol weithdrefnau. Os bydd modd profi maes o law nad oedd y diffynnydd yn deall goblygiadau ei benderfyniad, bydd gan y llysoedd hefyd bwerau i ddiddymu'r euogfarn a dechrau'r achos eto. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau digidol â chymorth yn rhoi sylw i anghenion yr henoed neu'r rheini sydd ag anabledau, y rheini sydd â sgiliau llythrennedd neu sgiliau Saesneg gwael, neu'r rheini sy'n methu â defnyddio technoleg oherwydd y gost neu ffactorau daearyddol. Byddwn yn treialu'n helaeth, yn cynnal ymchwil ymhlith defnyddwyr ac yn profi pethau ar draws y grwpiau hyn a sawl grŵp arall, a byddwn yn parhau i wella'r ddarpariaeth ddigidol â chymorth yn raddol

76. Ac ystyried bod rhoi euogfarn y tu allan i'r llys yn newid mawr i'r system cyfiawnder troseddol, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus wrth barhau i ddatblygu'r model. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bwriadwn fwrw yn ein blaenau i gynnwys y tair trosedd a restrir yn y ddogfen ymgynghori: osgoi talu am docyn rheilffordd, osgoi talu am docyn tram, a meddu ar wialen a lein bysgota heb drwydded. Os bydd hyn yn llwyddiannus, bwriadwn gynnwys troseddau tebyg eraill, gan gynnwys rhai troseddau gyrru penodol. Bydd angen inni edrych ar y rhain fesul un, ac mewn manylder, gan ystyried yr arferion dedfrydu cyn penderfynu'n derfynol pa rai sy'n debygol o fod yn addas. Byddwn yn llunio fersiwn wedi'i diweddarau o'r Asesiad o'r Effaith unwaith inni benderfynu pa droseddau fydd yn cael eu treialu o dan y broses newydd.
77. Roedd y ddogfen ymgynghori yn awgrymu y byddai'r gostyngiadau presennol am bledio'n euog yn gynnar yn parhau i gael eu rhoi, boed y diffynnydd yn pledio'n euog ar-lein neu fel arall. Gallai'r gostyngiadau presennol fod yn berthnasol i'r rheini sy'n pledio ar-lein mewn achosion y bydd y llysoedd yn delio â hwy, fel ar hyn o bryd, ond ni fyddai'r system bresennol ar gyfer pledio'n euog yn gweithio gyda'r gosb safonol awtomatig, gan mai un swm safonol fydd y cosbau hyn. Rydym wedi cael sylwadau ynghylch sut i osod lefelau'r cosbau, a byddwn yn ystyried sut i roi sylw i'r rhain. Mae rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi mynegi pryder am gymell diffynyddion i bledio'n euog pan na ddylent, a hefyd wedi dweud y dylid cadw dirwyon ar lefel sy'n ddigon i atal pobl eraill rhag cyflawni'r un drosedd. Byddwn yn ystyried yr holl ffactorau hyn wrth ystyried sut i bennu cosbau addas ar gyfer y troseddau perthnasol.

Cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd

78. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod llawer o bryder am y cynnig i gyflwyno paneli un aelod fel mater o drefn yn y tribiwnlysoedd unedig, ac yn enwedig mewn awdurdodaethau lle gallai fod cyfran uchel o ddefnyddwyr sy'n agored i niwed. Mae'r materion a godwyd yn ymwneud yn bennaf â'r angen i'r paneli gael arbenigedd er mwyn gwneud penderfyniadau teg a'r rheini wedi'u seilio ar wybodaeth dda. Nodwyd hefyd bod angen sicrhau bod defnyddwyr yn cael digon o gefnogaeth gan y panel. Nid ydym yn credu bod dim yn ein cynigion a fyddai'n arwain at wneud penderfyniadau heb i'r arbenigedd priodol fod ar gael pan fydd galw amdano, na dim a fyddai'n golygu nad yw defnyddwyr yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, ond rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd. Nid ydym felly yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig i gyflwyno paneli un aelod fel mater o drefn yn y tribiwnlysoedd unedig. Yn hytrach, byddwn yn diwygio Gorchymyn Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Tribiwnlys (Cyfansoddiad Tribiwnlys) 2008 gan alluogi Uwch Swyddog y Tribiwnlysoedd i bennu y dylai panel gynnwys un, dau neu dri aelod, yn ôl y galw, er mwyn penderfynu ar y materion sydd gerbron y tribiwnlys mewn ffordd gyfiawn a theg.

79. Fel ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i Uwch Swyddog y Tribiwnlys barhau i gyflawni'r ddyletswydd bresennol i ystyried a oes angen i aelodau'r panel gael arbenigedd yn y gyfraith neu yn y pwnc sydd dan sylw yn yr achos.
80. Rydym hefyd yn cynnig sicrhau bod modd i weinidogion oruchwylio'r penderfyniadau a wneir o dan y Gorchymyn Cyfansoddiad ynghylch cyfansoddiad paneli, a hynny drwy gynnwys gofyniad penodol sy'n golygu y bydd yn rhaid i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor ynghylch unrhyw newidiadau yn y dyfodol, gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y llysoedd sifil.
81. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ond yn credu bod y gofyniad ar Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ystyried cyfansoddiad tribiwnlysoedd yn y gorffennol yn gyfyngiad dianghenraid arno wrth benderfynu ar y dull mwyaf priodol a chymesur o drefnu'r system dribiwnlysoedd ddiwygiedig. Rydym felly yn bwriadu bwrw yn ein blaenau i ddiwygio'r Gorchymyn Cyfansoddiad er mwyn cael gwared ar y gofyniad hwn.

Yr egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth i'w gweld yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

ISBN 978-1-4741-3971-7



9 781474 139717